18 Chwefror 2013

(1) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

(2) CYNGOR SIR DDINBYCH

(3) CYNGOR SIR Y FFLINT

(4) CYNGOR GWYNEDD

(5) CYNGOR SIR YNYS MÔN

(6) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

---

# CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL

---

# CYNNWYS


1. DIFFINIADAU A DEHONGLI....5
2. CYCHWYN, HYD A THERFYNU....15
3. EGWYDDORION....16
4. SWYDDOGAETHAU'R GWASANAETH....18
5. IAITH....19
6. DYLETSWYDDAU'R CYNGOR LLETYA A'R CYNGHORAU ERAILL....20
7. GWNEUD PENDERFYNIAD....21
8. CYDBWYLLGOR....22
9. GRWP DEFNYDDWYR....27
10. YMRWYMIAD Y CYNGHORAU A CHYFRANIADAU....28
11. ADOLYGU PERFFORMIAD....30
12. LLETY....31
13. GWARANTAU....32
14. YMRWYMIADAU....33
15. RHEOLIADAU TUPE A GWEITHWYR....34
16. PENSIYNAU....35
17. YMGYNGHORI GYDAG UNDEBAU A CHYNRYCHIOLWYR GWEITHWYR....37
18. INDEMNIADAU TUPE....38
19. EIDDO DEALLUSOL....40
20. ATEBOLRWYDD Y CYNGHORAU....41
21. TYNNU'N OL....43
22. TANBERFFORMIAD GAN Y GWASANAETH....45
23. CYFRINACHEDD A CHYHOEDDIADAU....46
24. CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)....47
25. RHYBUDDION....47
26. CYFRAITH LLYWODRAETHU....48
27. ASEINIADAU....49
28. ILDIO HAWL....49
29. Y CYTUNDEB CYFLAWN....49
30. GWRTHRANNAU....49
31. PERTHYNAS Y CYNGHORAU....50
32. DATRYS ANGHYDFOD....50
33. DIOGELU DATA A RHANNU GWYBODAETH....52
34. RHYDDID GWYBODAETH A GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL....53
35. MESURAU LLINIARU....54

36. CYFRIFOLDEBAU STATUDOL........................................................55
37. AMRYWIADAU........................................................55
ATODIAD 1........................................................56
ATODIAD 2........................................................62
ATODIAD 3........................................................64
ATODIAD 4........................................................66
ATODIAD 5........................................................71
ATODIAD 6........................................................72
ATODIAD 7........................................................75
ATODIAD 8........................................................76

Gwneir **Y CYTUNDEB HWN** ar/8 · 2 2013

**RHWNG**

(1) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**, Bodlondeb, Conwy, Gogledd Cymru, LL32 8DU ("**Cyngor Conwy**");

(2) **CYNGOR SIR DDINBYCH**, Swyddfeydd y Cyngor, Rhuthun, Sir Ddinbych ("**Cyngor Sir Ddinbych**");

(3) **CYNGOR SIR Y FFLINT**, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NB ("**Cyngor Sir y Fflint**");

(4) **CYNGOR GWYNEDD**, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH ("**Cyngor Gwynedd**");

(5) **CYNGOR SIR YNYS MÔN**, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW ("**Cyngor Sir Ynys Môn**"); a

(6) **CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**, Guildhall, Wrecsam LL11 1AY ("**Cyngor Wrecsam**")

(Cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel y "**Cynghorau**", ac ar eu pen eu hunain, "**Cyngor**")

**CEFNDIR**

(A) Mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol. fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion (y "**Gwasanaeth**").

(B) Gweledigaeth y Cynghorau yw sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â

chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro; herio; darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

(C) Mae'r Cynghorau wedi cytuno i arwyddo'r Cytundeb hwn i ffurfioli eu rolau a'u cyfrifoldebau bob un mewn perthynas â'r Gwasanaeth, ac wedi penodi Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Achos Busnes Terfynol y cytunwyd arno.

(D) Dymuna'r Cynghorau arwyddo'r Cytundeb hwn a gweithredu'r Gwasanaeth yn unol â'r pwerau sydd ganddynt dan Adran 9 Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009, Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 101 a 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r Rheoliadau Cysylltiedig.

(E) Mae'r Cynghorau'n cydnabod bod y Cytundeb hwn yn gosod y sail y byddant yn sefydlu ac yn rheoli'r Gwasanaeth arno.

## 1. Diffiniadau a Dehongli

1.1 Yn y Cytundeb hwn, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol, bydd y termau isod yn golygu'r hyn a nodir:-

| | |
|---|---|
| "Asedau" | yr Asedau a nodir yng Nghymal 9 |
| "Diwrnod Busnes" | unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ŵyl y banc neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru |
| "Cadeirydd" | cadeirydd y Cydbwyllgor (a benodwyd yn unol â |

| | |
|---|---|
| | Chymal 8.9) |
| "Prif Swyddog" | Prif Swyddog y Gwasanaeth |
| "Dyddiad Cychwyn" | Dyddiad y cytundeb yma |
| "Model Comisiynu" | Y Model a ddefnyddir i sefydlu a chytuno ar y Gwasanaethau a ddarperir i Gynghorau, ysgolion a sefydliadau dysgu – Atodlen 1B |
| "Gwybodaeth Gyfrinachol" | yr holl wybodaeth, boed yn wybodaeth fasnachol, ariannol, technegol neu fel arall sy'n perthyn i fusnes y Cynghorau, sydd wedi'i chynnwys neu y gellir ei chanfod mewn pa ffurf bynnag (gan gynnwys, heb gyfyngiad, meddalwedd, data, lluniau, ffilmiau, dogfennau a chyfryngau y gellir eu darllen ar gyfrifiadur), a boed wedi'i marcio neu ei dynodi'n wybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth berchnogol neu ddim, neu'n cael ei datgelu ar lafar neu drwy ei dangos, ac y'i disgrifir ar adeg ei datgelu fel gwybodaeth gyfrinachol, neu sy'n amlwg yn wybodaeth gyfrinachol o natur ei chynnwys neu gyd-destun y datgeliad |
| "DDD" | Deddf Diogelu Data 1998 |
| "Cyfarwyddeb" | Cyfarwyddeb Cyngor 2001/23/EC ar gyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau sy'n ymwneud â diogelu hawliau gweithwyr mewn trosglwyddiadau neu ymgymeriadau, busnesau neu rannau o ymgymeriadau neu fusnesau, fel y rhoddwyd gan |

| | |
|---|---|
| | Ddatganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet: Trosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus |
| "Gweithiwr" | yr holl bobl a gyflogir gan y Cynghorau mewn perthynas â Swyddogaethau'r Gwasanaeth, dan gontract cyflogaeth (ac eithrio, rhag amheuaeth, unrhyw berson a ddefnyddir fel contractwr annibynnol neu berson a gyflogir gan unrhyw is-gontractwr a gyflogir gan Gyngor mewn perthynas â swyddogaethau'r Gwasanaeth yn y cyfnod cyn y Dyddiad Gweithredu) |
| "Gwybodaeth am Weithwyr" | y wybodaeth sy'n ymwneud â'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo, ac sydd i'w darparu gan y Cynghorau yn unol â Chymal 15 ac Atodlenni 5 a 6 |
| "Achos Busnes Terfynol" | yr Achos busnes terfynol dyddiedig Chwefror 2012 (fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd), a baratowyd ac y'i cymeradwywyd gan y Cynghorau cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi'r Gwasanaeth |
| "Blwyddyn Ariannol" | y cyfnod rhwng (ac yn cynnwys) 1 Ebrill a 31 Mawrth |
| "Y Gronfa" | Cronfa Bensiwn Gwynedd o fewn CPLlL |
| "Cyngor Lletya" | y Cyngor a benodwyd dan Gymal 6 fel yr awdurdod gweinyddol i'r Gwasanaeth, ac y mae ei ddyletswyddau wedi'u nodi yn y Cytundeb hwn |
| "Dyddiad | y diwrnod cyntaf o fis Ebrill 2013 neu ddyddiad arall |

| | |
|---|---|
| Gweithredu" | y mae'r Cynghorau'n cytuno arno i'r Gwasanaeth gychwyn gweithredu |
| "Eiddo Deallusol" | unrhyw/pob patent, nod masnach, enw masnach, hawlfraint, hawliau moesol, hawliau wrth ddylunio, hawliau mewn cronfeydd data, medr a phob hawl eiddo deallusol arall, boed y rheini'n gofrestredig neu'n bosib eu cofrestru neu ddim, ac yn bodoli yn y Deyrnas Unedig neu mewn unrhyw ran arall o'r byd neu ddim, ynghyd â phob/unrhyw ewyllys da sy'n perthyn iddynt a'r hawl i wneud cais i'w cofrestru |
| "Deunydd ED" | yr Eiddo Deallusol yn y Deunydd |
| "Cydbwyllgor" | yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 8.1 |
| "Cyfarfod o'r Cydbwyllgor" | cyfarfod o'r Cydbwyllgor sy'n cwrdd yn briodol yn unol â Chymal 8 |
| "Nodau Allweddol" | y nodau a restrir yng Nghymal 4.2 |
| "Swyddog Cyllid Arweiniol" | y person a benodir felly o bryd i'w gilydd gan y Cyngor Lletya i gynrychioli buddiannau'r Cynghorau yng nghyswllt materion ariannol y Gwasanaeth |
| "Swyddog Cyfreithiol Arweiniol" | y person a benodir felly o bryd i'w gilydd gan y Cyngor Lletya i gynrychioli buddiannau'r Cynghorau yng nghyswllt materion cyfreithiol y Gwasanaeth |
| "CPLlL" | y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a sefydlwyd yn unol â rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd |

| | |
|---|---|
| | Gwladol wrth weithredu pwerau dan adran 7 ac adran 12 Deddf Blwydd-daliadau 1972 fel y'i diwygiwyd o bryd o'i gilydd |
| "Rheoliadau CPLlL" | Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2008, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Budd-daliadau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008 fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd |
| "Ymrwymiadau" | yr holl gostau, treuliau, colledion, hawliadau, achosion, iawndal, tâl a ddyfernir ac ymrwymiadau eraill yn cynnwys ffioedd cyfreithiol a ffioedd proffesiynol eraill rhesymol (a threuliau) pryd bynnag fyddant yn codi neu'n dod i law |
| "Awdurdod Lleol" | prif gyngor (fel y diffinnir yn Adran 270 Deddf Llywodraeth Leol 1972) neu unrhyw gorff llywodraethol yng Nghymru a sefydlir yn olynydd i brif gyngor |
| "Colled" | bydd unrhyw gamau neu achosion, colledion, iawndal, tâl a ddyfernir, ymrwymiadau (yn cynnwys treth), hawliadau, costau, gorchmynion a threuliau, yn cynnwys dirwyon, cosbau, ffioedd cyfreithiol a ffioedd a threuliau proffesiynol eraill rhesymol a "Cholledion" yn cael eu dehongli'n unol â hyn |
| "Deunydd" | yr holl ddata, testun, graffeg, delweddau a deunyddiau neu ddogfennau eraill a grëir, defnyddir |

| | |
|---|---|
| | neu a gyflenwir gan Gyngor mewn perthynas â'r Cytundeb hwn, oni bai fod y Cyngor, cyn eu defnyddio neu eu cyflenwi am y tro cyntaf, yn hysbysu'r Cynghorau eraill nad yw'r diffiniad hwn yn berthnasol i'r data, testun a gyflenwir |
| "Materion a Gedwir i'r Cynghorau" | y materion a ddiffinnir yng Nghymal 7.1.2 |
| "Deilliannau" | Y Deilliannau a amlinellir yn yr Achos Busnes Llawn ac sydd wedi'u datgan yng nghymal 11.1 |
| "Cyfraniadau i'r Bartneriaeth" | Cyfraniad pob Cyngor at Gyllideb y Gwasanaeth, a gyfrifir yn unol â thelerau'r cytundeb hwn |
| Consortiwm Gogledd Cymru | Consortiwm Gwasanaethau Addysg Gogledd Cymru |
| "Data Personol" | data personol fel mae wedi'i ddiffinio yn y DdDD |
| "Cofnodion" | pob llyfr a chofnod sy'n perthyn i'r Gwasanaeth, yr Asedau a'r Gweithwyr (yn cynnwys ffeiliau personél) sy'n berchen ac yn eiddo i Gyngor ac yn cael eu rheoli ganddo, ac sy'n destun unrhyw gyfyngiadau h.y. cofnodion a drosglwyddwyd dan ddeddfwriaeth (yn cynnwys diogelu data) neu unrhyw gyfyngiadau cyfrinachedd y mae Cyngor yn destun iddynt, ac y bydd Swyddogion y Cyngor Lletya neu eu hasiantau yn derbyn hawliau mynediad llawn i'r cofnodion hynny'n sy'n berthnasol i'r cyfnod cyn y Dyddiad Gweithredu |

| | |
|---|---|
| "Rhanbarth" | holl ardaloedd gweinyddol y Cynghorau |
| "Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol" | yn golygu Bwrdd Partneriaethol Arweinyddion a Phrif Weithredwyr y Cynghorau |
| "Polisi Atebolrwydd Cyflogwr Perthnasol" | unrhyw gontract yswiriant sydd dal mewn grym ar y Dyddiad Cychwyn, sy'n indemnio Cyngor rhag atebolrwydd fel cyflogwr i'r Gweithwyr. I osgoi amheuaeth, bydd Polisi A C perthnasol yn cynnwys polisïau atebolrwydd cyflogwr gorfodol, polisïau gwarchod cyflogaeth ac unrhyw bolisi arall a ddyluniwyd i warchod Cyngor rhag atebolrwydd i'w Weithwyr |
| "Cyflogwr Perthnasol" | cyflogwr sy'n darparu gwasanaethau i Gyngor, naill ai'n uniongyrchol fel prif gontractwr neu'n anuniongyrchol fel is-gontractwr, lle bydd cytundeb cyflogaeth unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo neu unrhyw weithiwr arall y Cyngor a gyflogir mewn perthynas â'r Gwasanaeth yn trosglwyddo iddo yn unol â Rheoliadau TUPE ac/neu'r Gyfarwyddeb |
| "Hawliau" | buddion yr holl hawliau a hawliadau (boed yn wir, arfaethedig neu'n amodol) sydd gan y Cynghorau hawl iddynt mewn perthynas ag unrhyw Asedau (yn cynnwys budd unrhyw warant, amod, gwarant, indemniad neu bolisi yswiriant) hyd at y Dyddiad Gweithredu, ac o'r Dyddiad Gweithredu ymlaen |
| "Gwasanaethau" | Y Swyddogaethau a'r Gwasanaethau a amlinellir yn |

| | Atodlen 1A |
|---|---|
| "Gwasanaeth" | Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru a sefydlir yn unol â'r cytundeb hwn |
| "Cyllideb y Gwasanaeth" | Y gyllideb waelodlin flynyddol ar gyfer y Gwasanaeth, fel y cytunir rhwng y Cynghorau |
| "Gweithwyr y Gwasanaeth" | Staff a gyflogir o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Lletya yn y capasiti hwnnw |
| "CLG" | Cytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol y cytunir arno rhwng y Gwasanaeth a Chyngor neu ysgol neu sefydliad dysgu sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth a'r Cyngor neu'r ysgol a'r Gwasanaethau (yn cynnwys safonau a pherfformiad) fydd yn cael eu darparu yn unol â'r cytundeb hwn a'r Cynllun Comisiynu perthnasol |
| "Swyddog Adran 151 y Gwasanaeth" | y person a benodir felly gan y Cyngor Lletya (h.y. y swyddog a benodir ganddynt dan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972) fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Gwasanaeth yn briodol, ac am reoli'r Swyddog Cyllid Arweiniol a chasglu adroddiadau rheolaidd ar faterion cyfrifo'r Gwasanaeth (â chymryd, er osgoi amheuaeth, y bydd gan swyddog unigol pob Cyngor a benodir yn unol ag adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yr hawl i fynychu Cyfarfodydd Bwrdd y Gwasanaeth a Chyfarfodydd y Cydbwyllgor o bryd i'w gilydd) |

| | |
|---|---|
| "Gweithwyr sy'n Trosglwyddo" | unrhyw weithiwr mewn Cyngor y mae'r manylion yn ei gylch yn Atodlen 5 y Cytundeb hwn yn cael eu cyflenwi i'r Cyngor Lletya, fel y darperir ar ei gyfer yng Nghymal 14, ac y mae ei gytundeb cyflogaeth yn dod i rym ar y Dyddiad Gweithredu, ac fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y Cyngor Lletya a gweithiwr o'r fath |
| "Rheoliadau TUPE" | Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 neu unrhyw ailddeddfiad ohonynt, fel y cymhwyswyd gan Ddatganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet: Trosglwyddo Staff yn y Sector Cyhoeddus |
| "Grŵp Defnyddwyr" | Ysgolion a Grŵp Defnyddwyr Llywodraethwyr y GEGYR a sefydlwyd yn unol â Chymal 9 |
| "Is-gadeirydd" | Is-gadeirydd y Cydbwyllgor (a benodwyd yn unol â Chymal 8.13.) |
| "Gwarantau" | y gwarantau a amlinellir neu y cyfeirir atynt yng Nghymal 13 ac Atodlen 4 |
| "LlC" | Llywodraeth Cymru |

1.2 Oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall:

1.2.1 bydd cyfeiriad at yr unigol yn golygu'r lluosog hefyd, ac i'r gwrthwyneb;

1.2.2 bydd cyfeiriad at unrhyw gymal, is-gymal, paragraff, atodlen, datganiad neu atodiad, oni bai y nodir yn glir i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at gymal, is-gymal, paragraff, atodlen, datganiad neu atodiad o'r fath yn y Cytundeb hwn;

1.2.3 bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn neu at unrhyw ddogfen arall yn cynnwys unrhyw amrywiad, newid neu ychwanegiad a ganiatawyd i'r fath ddogfen;

1.2.4 bydd unrhyw gyfeiriad at ddeddfwriaeth yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad, newid, uniad neu ailddeddfiad o'r ddeddfwriaeth;

1.2.5 tybir bod cyfeiriad at sefydliad cyhoeddus (yn cynnwys, er osgoi amheuaeth, unrhyw Gyngor) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw olynydd i sefydliad cyhoeddus o'r fath neu unrhyw sefydliad neu endid sydd wedi cymryd drosodd swyddogaethau a chyfrifoldebau sefydliad cyhoeddus o'r fath yng nghyswllt ysgolion ac addysg;

1.2.6 mae cyfeiriad at berson yn cynnwys cwmnïau, partneriaethau a chorfforaethau a'u holynwyr, ac aseinai neu drosglwyddai a ganiatawyd;

1.2.7 nid yw pennawd atodlen, y cymal, yr is-gymal a (lle'u darperir) y penawdau ac eglurynnau i baragraffau yng nghorff y Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn, ac ni chymrir hwy i ystyriaeth wrth greu neu ddehongli'r Cytundeb;

1.2.8 bydd geiriau sy'n dod o flaen "yn cynnwys", "gan gynnwys" ac "wedi'i gynnwys" yn cael eu dehongli, heb gyfyngiad, yn ôl y geiriau sy'n dilyn y geiriau hynny; a

1.2.9 bydd unrhyw gyfeiriad at deitl swyddog neu unrhyw un o'r Cynghorau yn cynnwys unrhyw berson sy'n dal y swydd honno o

bryd i'w gilydd dan yr un teitl neu deitl gaiff ei amnewid wedi hynny, neu unrhyw swyddog arall o'r Cyngor perthnasol y bydd y Cyngor hwnnw o bryd i'w gilydd yn ei benodi i gyflawni dyletswyddau'r swyddog y cyfeiriwyd ato.

1.3 Atodlenni

Mae'r Atodlenni i'r Cytundeb hwn yn ffurfio rhan o'r Cytundeb hwn.

**2. Cychwyn, hyd a therfynu**

2.1 Bydd y Cytundeb hwn yn parhau i fod mewn llawn rym ac yn effeithiol o'r Dyddiad Cychwyn hyd nes y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn:-

2.1.1 bod yr holl Gynghorau'n cytuno'n ysgrifenedig i derfynu'r cytundeb; neu

2.1.2 nad oes ond un Cyngor ar ôl nad yw wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn yn unol â Chymal 21 (Tynnu'n ôl) neu 22 Tanberfformiad Gwasanaeth

2.2 Heb ragfarnu unrhyw hawliau neu gywiriadau eraill, gall y Cynghorau eraill (y "**Cynghorau Di-feth**") ddod â'r Cytundeb hwn i ben mewn perthynas ag unrhyw Gyngor unigol ("**y Cyngor sydd wedi Methu**"), wrth weithredu'n unfrydol, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor sydd wedi Methu ("Rhybudd Terfynu") sy'n dod i rym pan dderbynnir ef os yw'r Cyngor sydd wedi Methu yn torri'n sylweddol unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn, ac os oes posib cywiro'r methiant hwn, yn methu â chywiro pob methiant yn iawn o fewn chwe deg (60) Diwrnod Busnes (neu ryw gyfnod arall mae'r Cynghorau'n cytuno arno) o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig o'r methiant gan y Cynghorau Di-feth ac o'r angen i gywiro'r methiant. Bydd y penderfyniad i Derfynu yn fater a gedwir i'r Cynghorau.

2.3 Wrth benderfynu neu ymateb i unrhyw benderfyniad neu gynnig i derfynu'r Cytundeb yn unol â'r cymal hwn, rhaid i bob Cyngor yn cynnwys, er osgoi

amheuaeth, y Cyngor sydd wedi Methu, roi ystyriaeth briodol i Egwyddorion y Bartneriaeth a phriodoldeb cychwyn y Weithdrefn Datrys Anghydfod (Cymal 32), gyda'r bwriad o ganfod ateb fydd yn cynnal y Bartneriaeth.

2.4 Bydd cyflwyno Rhybudd Terfynu yn cael ei drin fel petai'n Rhybudd Tynnu'n Ôl yn unol â Chymal 21, a bydd darpariaethau'r cymal hwn mewn perthynas â'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan y Cynghorau wrth ymateb ac ymrwymiadau'r Cyngor sydd wedi Methu felly'n berthnasol.

2.5 Bydd yn cymalau canylol yn parhau yn weithredol wedi Terfynu neu Dynnu'n Ol o'r cyntundeb cymal 13 cymal 14 a chymal 16 ynghyd a'r Atodleni cysylltiedig.

2.6 Nid fydd Terfynu neu Dynnu'n Ol o'r Cytundeb yma am ba reswm bynnag yn effeithio ar hawliau cronus, datrysiadau cyfrifoldebau neu ymrywmiadau yn bodoli ar derfynu.

**3. Egwyddorion**

3.1 Mae'r Cynghorau'n bwriadu i'r Cytundeb hwn fod yn gytundeb cyfreithiol.

3.2 Mae'r Cynghorau'n cytuno i weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

3.3 Heb ragfarnu telerau'r Cytundeb hwn, mae'r Cynghorau'n cytuno y byddant yn cynnal eu perthynas yn unol â'r egwyddorion a ganlyn:-

**Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth**

mewn perthynas â'r Cytundeb hwn bydd y Cynghorau'n agored ac yn ymddiried yn y naill a'r llall wrth ddelio â'u gilydd, yn rhoi gwybodaeth a dadansoddiadau ar gael i'w gilydd, yn trafod ac yn datblygu syniadau'n agored ac yn cyfrannu'n llawn at bob agwedd o wneud y cydweithio'n llwyddiannus;

**Ymrwymiad a Chymhelliant**

bydd y Cynghorau wedi ymrwymo'n llawn i weithio gyda'i gilydd, yn ceisio ysgogi'r holl weithwyr ac yn mynd i'r afael â heriau'r Gwasanaeth yn llawn bwriad a brwdfrydedd ac yn benderfynol o lwyddo;

**Sgiliau a Chreadigedd**

mae'r Cynghorau'n cydnabod bod pob un yn dod â sgiliau a gwybodaeth defnyddiol y gellir eu cymhwyso'n greadigol er mwyn cyflawni amcanion y Cynghorau, sicrhau parhad y cydweithio, datrys anawsterau a datblygu'r berthynas gydweithio a'r staff personél sy'n gweithio oddi mewn iddo;

**Perthnasau Effeithiol**

bydd rolau a chyfrifoldebau pob un Cyngor yn glir, gan ddatblygu perthnasau ar y lefelau priodol ym mhob sefydliad, gyda mynediad hawdd ac uniongyrchol at gynrychiolwyr ei gilydd;

**Datblygu ac Addasu**

mae'r Cynghorau'n cydnabod eu bod ynghlwm â beth allasai fod yn berthynas hirdymor, sydd angen datblygu ac addasu, a byddant yn ymdrechu'n rhesymol i ddatblygu a chynnal proses ar y cyd effeithiol er mwyn sicrhau bod y berthynas yn datblygu'n briodol ac yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion hyn;

**Enw Da**

mae'r Cynghorau'n cytuno, mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Gwasanaeth yn gyffredinol, y byddant yn rhoi'r sylw pennaf i enw da eu gilydd, ac na fyddant yn gwneud neu'n methu â gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar enw da unrhyw Gyngor arall neu'n denu cyhoeddusrwydd gwael i unrhyw Gyngor arall;

**Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau**

mae'r Cynghorau'n cytuno y bydd yr holl benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r Cytundeb hwn a'r Gwasanaeth yn gyffredinol yn cael eu gwneud gan ymddwyn yn rhesymol ac yn ddidwyll;

**Caniatâd Angenrheidiol**

mae pob Cyngor drwy hyn yn sicrhau i'r Cynghorau eraill ei fod wedi derbyn pob caniatâd angenrheidiol sy'n ddigon i sicrhau y dirprwyir y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn; ac

**Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion**

bydd pob Cyngor yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod eu haelodau a'u swyddogion hwy sydd ynghlwm â'r Gwasanaeth yn gweithredu er pennaf les y Gwasanaeth bob tro, ac yn ymateb yn brydlon i bob cais perthnasol gan y Cynghorau eraill.

**4. Swyddogaethau'r Gwasanaeth***

4.1 Yn unol â'r Cytundeb hwn, ac fel sydd wedi'i fanylu ymhellach yn Atodlen 1, bydd y Gwasanaeth yn gyfrifol am y swyddogaeth o weithredu'r Achos Busnes Llawn drwy ymgymryd â'r hyn a ganlyn, er mwyn cyflawni'r Nodau Allweddol a nodir yn 4.2 isod:-

4.1.1 cefnogi'r Cynghorau i ymgymryd â'u swyddogaethau statudol mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion;

4.1.2 rhoi cefnogaeth i'r Cynghorau a'r Ysgolion (ar y cyd ac ar wahân, yn ôl yr achos) mewn gweithgareddau Gwella Ysgolion;

4.1.3 cyfrifoldeb penodol am weithredu'r FfEY ac atebolrwydd am y Fframwaith Her ac Ymyrraeth (CIF);

4.1.4 darparu ar gyfer datblygu, cynnal ac adolygu fframweithiau rhanbarthol ar sail comisiwn.

4.2 Nodau Allweddol y Gwasanaeth fydd:-

4.2.1 Gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion Cenedlaethol i godi safonau a gwella lles drwy leihau amrywiadau oddi mewn i, a rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol, gan ystyried anghenion lleol ar yr un pryd;

4.2.2 ymateb i weithdrefn arolygu Estyn;

4.2.3 adnabod arbedion effeithlonrwydd;

4.2.4 darparu sylfaen sy'n caniatáu gweithio'n rhanbarthol ar wasanaethau sy'n ymwneud ag addysg yn y dyfodol.

4.3 Nid oes dim yn y Cytundeb hwn sy'n caniatáu i'r Gwasanaeth weithredu unrhyw ymyrraeth statudol neu ymgynghori ar weithredu ymyrraeth statudol mewn ysgol benodol, Ffederasiwn neu glwstwr o ysgolion yn unol ag Adran 15 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, neu unrhyw bŵer neu ddarpariaeth statudol gyffelyb sy'n caniatáu i Gyngor ymgymryd yn uniongyrchol â phwerau rheolaethol neu ad-drefnu yng nghyswllt sefydliadau o'r fath neu ynglŷn a rheolau staff.

4.4 Yn ddarostyngedig i'r Cytundeb hwn, caiff y Gwasanaethau eu darparu i Gynghorau, ysgolion neu sefydliadau dysgu unigol dan delerau'r CLG a baratowyd yn unol â'r Model Comisiynu.

* tybir fod cyfeiriadau ar FfEY Neu CIF yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau neu bolisïau neu fframweithiau diweddarach sydd yn eu disodli cyn belled ac i'r graddau eu bod yn gydnaws a Swyddogaethau'r Gwasanaeth

## 5. Iaith

5.1 Bydd y Cydbwyllgor o fewn 12 mis i'r Dyddiad Cychwyn yn cytuno ar, ac yn gweithredu Cynllun neu Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer y Gwasanaeth yn unol â'r Achos Busnes Llawn, er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog

fydd yn gallu darparu cefnogaeth lawn drwy'r iaith Gymraeg ar draws y Rhanbarth.

## 6. Dyletswyddau'r Cyngor Lletya a'r Cynghorau Eraill

6.1 Mae'r Cynghorau (gan weithredu bob yn un) wedi cytuno mai Cyngor Gwynedd fydd y Cyngor Lletya ar gyfer y Gwasanaeth, ac y bydd hynny'n dod i rym o'r Dyddiad Cychwyn ac yn cyflawni'r Gwasanaeth ar ei gyfer ac ar ei ran ef a'r Cynghorau, ac mae'n cytuno i weithredu'n y capasiti hwnnw dan amodau, yn unol â, ac i'r graddau y darperir ar eu cyfer gan delerau'r Cytundeb hwn. Er osgoi amheuaeth mae rôl y Cyngor Lletya yn cynnwys:-

6.1.1 yn amodol ar bob indemniad a gwarant, gweithredu fel yr awdurdod cyflogi ar gyfer unrhyw staff sy'n rhan o gyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth (penodi, cyflogi neu dderbyn secondiadau staff) yn unol â'r Cytundeb hwn;

6.1.2 bod yn bwynt cyswllt cyfreithiol er dibenion rheoli'r Gwasanaeth;

6.1.3 darparu'r holl adnoddau a chyfleusterau gweinyddol allai fod yn angenrheidiol er dibenion darparu'r Gwasanaeth, a dal yr holl gronfeydd canolog;

6.1.4 darparu'r Gwasanaethau Adnoddau Dynol allai fod yn angenrheidiol er dibenion darparu'r Gwasanaeth, a dal yr holl gronfeydd canolog;

6.1.5 darparu uwch swyddogion fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd, Swyddog Monitro a Thrysorydd (hwn fydd y swyddog adran 151 hefyd) ar gyfer y Gwasanaeth, ac a fydd felly'n gweithredu fel y prif ymgynghorwyr cyfreithiol ac ariannol i'r Gwasanaeth;

6.1.6 y pŵer i gytuno ar gontractau am nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Gwasanaeth.

6.2 Er osgoi amheuaeth nid yw dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Lletya yn unol â'r cytundeb hwn ond yn ymrwymo'r Awdurdod Lletya cyn belled â darperi adnoddau ar eu cyfer gan y Cynghorau drwy'r Cytundeb hwn.

6.3 Eithr ac oni bai fod y gyfraith yn gofyn yn wahanol, bydd yr holl staff a gyflogir gan yr Awdurdod Lletya yn unol â'r cytundeb hwn yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau cyflogaeth perthnasol yr Awdurdod Lletya, a pholisïau staff cysylltiedig, gan gynnwys strwythurau cyflog.

6.4 Os yw'r Cyngor Lletya yn methu, a bod y Cytundeb yn cael ei derfynu yng nghyswllt y Cyngor hwnnw yn unol â Chymal 2 (Terfynu), neu os yw'r Cyngor Lletya yn tynnu'n ôl yn unol â Chymal 21 neu 22 (Tynnu'n ôl), bydd y Cynghorau'n penodi Awdurdod Lletya yn ei le, ac ni fydd gan y Cyngor sydd wedi tynnu'n ôl/wedi methu yr hawl i bleidleisio yng nghyswllt unrhyw benodiad o'r fath.

6.5 Am hyd y Cytundeb hwn, bydd y Cyngor Lletya yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhob peth a wna gyda'r Cynghorau eraill ac

6.6 Am hyd y Cytundeb hwn, bydd y Cynghorau eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhob peth a wnânt gyda'r Cyngor Lletya, a byddant yn gwneud pob ymdrech resymol i gynorthwyo'r Cyngor Lletya i gefnogi'r Gwasanaeth.

## 7. Gwneud Penderfyniadau

7.1 Mae'r Cynghorau wedi adnabod y ddau gategori canlynol o benderfyniadau, ynghyd â'r modd y byddant yn cael eu gwneud:-

7.1.1 **"Mater Cydbwyllgor"** - mater y penderfynir arno mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor (rhaid cael cworwm ynddo) gan y rheini sy'n bresennol ac sydd â'r hawl i bleidleisio, a bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn rhwymo'r holl Gynghorau;

7.1.2 **"Mater a Gedwir i'r Cynghorau"** – mater y bydd rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor er penderfyniad, ac er osgoi amheuaeth, ni fydd y Cydbwyllgor yn delio ag unrhyw fater o'r fath (yn ôl fel bo'n digwydd) hyd nes bod pob un o'r Cynghorau wedi penderfynu arno. Os yw'r Cynghorau'n methu â dod i'r un penderfyniad yng nghyswllt mater o'r fath, caiff y mater ei gyfeirio dan Gymal 32 (Datrys Anghydfod) fel anghydfod sydd i'w ddatrys, ac mae materion o'r fath wedi'u hadnabod yn Atodlen 2.

## 8. Cydbwyllgor

8.1 Mae'r Cynghorau wedi ffurfio'r cydbwyllgor ("**y Cydbwyllgor**") a elwir y **CYDBWYLLGOR GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL** yn unol â Chytundeb y Bartneriaeth i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Atodlen 1.

8.2 Mae'r Cydbwyllgor yn gydbwyllgor a gyfansoddwyd gan y Cynghorau dan adran 101(5) a 102(1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn destun darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth, a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.

8.3 Bydd Aelodaeth y Cydbwyllgor fel a ganlyn:-

| **Aelodau sydd â Hawl i Bleidleisio** | **Aelodau sy'n Swyddogion – Dim Pleidlais** |
|---|---|
| 6 x Aelod Portffolio Addysg<br>*un o bob Awdurdod Lleol yng ngogledd Cymru* | 6 x Prif Swyddog Addysg Statudol<br>*un o bob ALl yng ngogledd Cymru* |
| **Aelodau Cyfetholedig – Dim Pleidlais** | **Swyddogion i Fynychu** |

| | |
|---|---|
| 1 x cynrychiolydd o'r Esgobaeth *wedi'i enwebu ar ran Esgobaeth Wrecsam, Llanelwy a Bangor, am gyfnod o ddwy flynnedd ar sail rota* | 1 x Cynrychiolydd Cyfreithiol<br>1 x Cynrychiolydd A151<br>Arbenigwyr eraill yn ôl y gofyn |
| 1 x cynrychiolydd o'r Ysgolion Cynradd<br><br>1 x cynrychiolydd o'r Ysgolion Uwchradd<br>1 x cynrychiolydd o'r Ysgolion Arbennig | |
| 1 x Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr | |

(Disgwylir y bydd holl Aelodau'r Cydbwyllgor, gan gynnwys Dirprwyon, wedi'u hawdurdodi'n briodol i gymryd rhan yn ei fusnes).

8.4 Caiff cynrychiolwyr yr Esgobaeth ar y Cydbwyllgor eu henwebu ar y cyd yn ysgrifenedig gan Esgobaethau Wrecsam, Llanelwy a Bangor, ar sail rota fesul Esgobaeth, yn cychwyn ar y Dyddiad Cychwyn. Bydd cynrychiolwyr o Esgobaethau unigol yn cael gwasanaethu am dymor o ddwy flynedd ar y mwyaf fesul pob tro unigol.

8.5 Bydd cynrcyhiolwyr Llywodraethwyr Cynradd, Uwchradd ar y Cydbwyllgor yn cael eu henwebu gan y Grwp Defnyddiwyr o blith y cynrcyhilwyr sector berthnasol yn gwasanaethu ar y Grwp Defnyddiwyr

8.6 Gall cynrychilwyr a enwebir I'r Cydbwyllgor ond gwasanaethu tra'n parhau yn aelodau o'r Grwp Defnyddiwyr ac yn ddarostyngedig i hynny fe'u penodir am gyfnod o ddwy flynnedd ( er osgoi amhaeaweth ni fydd unrhyw beth o fewn y cymal yma yn rhwystro aelod o'r Grwp Defnyddiwyr rhag cael ei benodi/phenodi am gyfnod pellach o ddwy flynnedd).

8.7 Wrth enwebu aelodau I wasanaethu ar y Cydbwyllgor dylai'r Grwp Defnyddiwyr, cyn belled a bod hynny'n resymol ymarferol ddal sylw at yr egwyddor y dylai'r sawl a ewnwebir adlewyrchu cynrychiolaeth ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

8.8 Er osgoi amheuaeth, bydd gan Swyddog Adran 151 y Gwasanaeth a Swyddog Cyfreithiol y Gwasanaeth ac/neu eu cynrychiolwyr awdurdodedig yr hawl i fynychu holl gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

8.9 Gall pob Cyngor, yn ôl ei ddewis ei hun, amnewid eu cynrychiolwyr a benodwyd i'r Cydbwyllgor, cyn belled â bod ganddynt bob amser gynrychiolwyr wedi'u penodi i'r Cydbwyllgor yn unol â'r rolau a nodwyd yn 8.3 uchod a

8.10 Gall corff enwebu Dirprwy i fynychu'r Cydbwyllgor ar ran aelod yn yr amgylchiadau a ganlyn:-

(i) i gymryd lle aelod o'r Cydbwyllgor;

(ii) pan nad yw'r aelod yn gallu mynychu'r cyfarfod cyfan; ac

(iii) os yw'r aelod wedi hysbysu'r Cadeirydd o flaen llaw'r cyfarfod perthnasol.

Dim ond yn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor y bydd gan Ddirprwy yr hawl i siarad, a phan fo'n berthnasol, pleidleisio, ac ni fydd

unrhyw swyddogaeth neu benodiad arall, yn cynnwys penodiadau i Weithgorau, yn berthnasol iddynt pan fyddant yn gweithredu fel Dirprwy.

8.11 Bydd Cadeirydd y Cydbwyllgor yn aelod Gweithrediaeth etholedig o Gyngor, a benodir gan y Cydbwyllgor yn unol â Chymal 8.13.

8.12 Bydd Is-gadeirydd y Cydbwyllgor yn aelod Gweithrediaeth etholedig o Gyngor, a benodir gan y Cydbwyllgor yn unol â Chymal 8.13. Yn absenoldeb y Cadeirydd am ba reswm bynnag, gellir rhoi cyfrifoldebau'r Cadeirydd i'r Is-gadeirydd.

8.13 Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, a bydd y penodiadau'n parhau mewn grym hyd nes y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf.

8.14 Bydd y Cydbwyllgor yn cyfarfod fel bo'r angen i gyd-fynd ag anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth, cyn belled â bod o leiaf tri chyfarfod y flwyddyn yn cael eu cynnal, a bod un o'r rheini'n cael eu nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Bydd y Cydbwyllgor yn cytuno ar leoliad y cyfarfodydd.

8.15 Bydd copi papur o'r agenda ac adroddiadau ar gyfer pob cyfarfod a chofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu dosbarthu i'r holl gynrychiolwyr a benodwyd i'r Cydbwyllgor o leiaf bum (5) Diwrnod Busnes cyn cyfarfod o'r fath. Bydd Prif Weithredwr y Cyngor Lletya yn sicrhau bod yr agenda a'r holl bapurau perthnasol yn cwrdd â'r terfyn amser hwn. Bydd pob Agenda, adroddiad a chofnod mewn perthynas â'r Cydbwyllgor yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod o'r Cydbwyllgor.

8.16 Bydd Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor Lletya yn berthnasol, oni bai fod hynny'n anghyson â thelerau'r Cytundeb hwn.

8.17 Y cworwm angenrheidiol i gyfarfodydd y Cydbwyllgor fydd pum (5) aelod â hawl pleidleisio o'r Cydbwyllgor.

8.18 Yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor bydd gan bob aelod sydd â'r hawl i bleidleisio un (1) bleidlais. Gwneir penderfyniadau yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor drwy bleidlais fwyafrif syml.

8.19 Ni fydd gan y Cydbwyllgor y pŵer i gymeradwyo unrhyw Fater a Gedwir i'r Cynghorau yn unol â Chymal 7.1.2 (Gwneud Penderfyniadau).

8.20 Gall y Cadeirydd alw cyfarfod arbennig o'r Cydbwyllgor ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyngor Lletya, yn manylu ar y busnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod arbennig hwnnw.

8.21 Gelwir cyfarfod arbennig ar gais ysgrifenedig unrhyw Aelod o'r Cydbwyllgor sy'n gweithredu ar ran ei Gyngor/Chyngor, lle bydd y cais yn manylu ar y busnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod arbennig hwnnw.

8.22 Bydd y trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfod arbennig yn unol â'r amserlen a nodir yng Nghymal 8.12.

8.23 Os gelwir cyfarfod arbennig, bydd y Cyngor Lletya yn hysbysu'r holl Gynghorau'n ysgrifenedig fel mater o frys.

8.24 Os, mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor, nad yw mater yn derbyn penderfyniad drwy bleidlais fwyafrif yn unol â Chymal, bydd y mater hwnnw ("**Mater Cydbwyllgor heb Benderfyniad**") yn cael ei ohirio er mwyn ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor, fydd yn cwrdd o fewn deng (10) Diwrnod Busnes o'r Cyfarfod hwnnw. Os yn yr ail gyfarfod hwn nad yw'r Cydbwyllgor yn gwneud penderfyniad ar y Mater heb Benderfyniad, fe bennir y mater yn unol â Chymal 31 – **Datrys Anghydfod**.

8.25 Bydd pob Cyngor yn darparu'r holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ar gais gan y Cydbwyllgor, a byddant yn cydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cydbwyllgor i ofyn am wybodaeth o'r fath.

8.26 Bydd pob Cyngor yn ymgynghori â'r Cynghorau eraill i sicrhau bod y materion dydd i ddydd sy'n perthyn i'r Gwasanaeth yn mynd yn eu blaen yn ddiwyd.

**9. Grŵp Defnyddwyr**

9.1 Bydd y Cynghorau'n sefydlu'r Grŵp Defnyddwyr i roi cefnogaeth i'r Cydbwyllgor ac i'w herio.

9.2 Bydd gan y Grŵp Defnyddwyr yr aelodau a ganlyn, a benodir yn y modd a nodir:-

| **Aelodaeth** | **Cynrychiolaeth** |
|---|---|
| 6 cynrychiolydd Uwchradd (1 cynrychiolydd fesul Cyngor) | Cadeirydd Grŵp neu Ffederasiwn Penaethiaid Ysgolion Uwchradd pob un Cyngor |
| 6 cynrychiolydd Cynradd (1 cynrychiolydd fesul Cyngor) | Cadeirydd Grŵp neu Ffederasiwn Penaethiaid Ysgolion Cynradd pob un Cyngor |
| 1. Cynrychiolwyr Ysgolion Arbennig (1 cynrychiolydd fesul Cyngor) | Un cynrychiolydd a gymrwyd o Ffederasiwn Ysgolion Arbennig Gogledd Cymru |
| Llywodraethwyr Ysgol – 1 Cynrychiolydd fesul Cyngor | Bydd Prif Swyddog Addysg pob un Cyngor yn cytuno ar un cynrychiolydd a gymrwyd o'r Llywodraethwyr a etholwyd i'w Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn unol â Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a |

| | Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001. |
|---|---|

9.3 Bydd y Grŵp Defnyddwyr yn cyfarfod fel bo'r angen i gyd-fynd ag anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth, cyn belled â bod o leiaf tri chyfarfod y flwyddyn yn cael eu cynnal. Bydd y Grŵp Defnyddwyr yn cytuno ar leoliad y cyfarfodydd. Bydd pob Agenda, adroddiad a chofnod mewn perthynas â'r Grŵp Defnyddwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Defnyddwyr.

9.4 Anfonir Agenda ysgrifenedig at bob un o aelodau'r Grŵp Defnyddwyr ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd yr Agenda yn cynnwys copïau o'r holl adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cydbwyllgor yn ei gyfarfodydd blaenorol.ac eithrio adroddiadau ar faterion sydd yn eithriedig dan ddarpariaethau Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972.

9.5 Bydd gan y Grŵp Defnyddwyr yr hawl i adrodd wrth a gwneud argymhellion i'r Cydbwyllgor ynglŷn ag unrhyw fater sydd oddi mewn i sgôp swyddogaethau'r Gwasanaeth.

## 10. Ymrwymiad y Cynghorau a Chyfraniadau

10.1 Mae'r Cynghorau'n cytuno i ymrwymo i'r Gwasanaeth yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn, ac i beidio â chomisiynu unrhyw wasanaeth fyddai'n peri darparu peth neu'r cyfan o'r Gwasanaethau tu allan i delerau'r Cytundeb hwn, eithr lle mae'r Gwasanaeth wedi cael cynnig y cyfle i ddarparu'r gwasanaeth dan sylw, ac am resymau capasiti neu allu technegol, wedi cytuno na all ddarparu'r Gwasanaeth y gofynnir amdano yn unol â gofynion penodedig y Cyngor neu ysgol benodol, ac mewn achos felly, bydd y Gwasanaeth yn eu cynorthwyo i gomisiynu'r Gwasanaethau tu allan i'r cytundeb hwn.

10.2 Mae'r Cynghorau'n cytuno i dalu Cyfraniadau i'r Bartneriaeth, fydd yn cael

eu cyfrifo yn unol â'r fformiwla yn Atodlen 3.

10.3 Mae'r Cynghorau'n cytuno i dalu Cyfraniadau'r Bartneriaeth i'r Awdurdod Lletya ymlaen llaw o fewn 28 diwrnod o dderbyn anfoneb gan yr Awdurdod Lletya, sydd i'w gyflwyno i'r Cynghorau ar sail chwe mis erbyn 31 Mai a 30 Tachwedd mewn unrhyw flwyddyn.

10.4 Bydd yr Awdurdod Lletyol yn paratoi cyfrifon blynyddol terfynol ar gyfer y Gwasanaeth ar gyfer pob Blywddyn Ariannol yn unol a pholisiau cyfrifo yr Awdurdo Lletyol a dim hwyrach na 31 Mai yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

10.5 Os digwydd bod gwariant blynyddol y Gwasanaeth yn uwch na Chyllideb y Gwasanaeth, bydd Prif Swyddog y Gwasanaeth erbyn ddim hwyrach na 31 Mai yn y flwyddyn ariannol olynol yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cydbwyllgor, ac yn rhoi copi i'r Prif Swyddogion Addysg a Phenaethiaid Cyllid pob un Cyngor yn manylu graddau'r gorwariant, yr achos a'r strategaeth a argymhellir i ddatrys y mater.

10.6 Os digwydd bod gan y Cyngor arian dros ben mewn unrhyw Flwyddyn ariannol, sy'n hafal i 5% neu ragor o gyllideb y Gwasanaeth am y flwyddyn honno, bydd y Prif Swyddog erbyn ddim hwyrach na 31 Mai yn y Flwyddyn Ariannol olynol yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cydbwyllgor, ac yn rhoi copi i'r Prif Swyddogion Addysg a Phenaethiaid Cyllid pob un Cyngor yn manylu graddau'r arian dros ben, yr achos a'r strategaeth a argymhellir o ran y tanwariant.

10.7 Gall yr holl Gynghorau, gyda'i gilydd ac yn gymesur, adolygu a diwygio Cyllideb waelodlin y Gwasanaeth ar drydydd pen-blwydd y Dyddiad Gweithredu, a bob tair blynedd wedi hynny, gan ddefnyddio'r mecanwaith a ganlyn:

1. Gall Cyngor ofyn am gynnal adolygiad a diwygio Cyllideb Flynyddol y Gwasanaeth, cyn belled â'i fod yn cyflwyno rhybudd ysgrifenedig ymlaen

llaw i'r Awdurdod Lletya a Phrif Swyddog y Gwasanaeth ddim hwyrach na 31 Hydref yn y flwyddyn cyn y trydydd pen-blwydd.

2. Bydd rhybudd o'r fath, gan roi ystyriaeth i'r Egwyddorion, parhad darpariaeth y Gwasanaethau a chyflawni'r Deilliannau, yn egluro'r diwygiad a gynigir, a'r cyfiawnhad dros ddiwygiad o'r fath.

3. Wrth dderbyn cais o'r fath bydd Prif Swyddog y Gwasanaeth o fewn 35 diwrnod yn paratoi ac yn cyflwyno i bob Cyngor adroddiad a ddilyswyd gan y Cydbwyllgor mewn ymateb, gan amlinellu effaith disgwyliedig y diwygiad a gynigir ar y Gwasanaeth a'i allu i ddarparu'r Gwasanaethau a'r Deilliannau.

4. Bydd yr ymateb i'r adroddiad yn Fater a Gedwir i'r Cynghorau, a bydd gofyn cael cytundeb yr holl Gynghorau i unrhyw amrywiad, a bydd unrhyw amrywiad yn gymesur ar gyfer pob Cyngor.

## 11. Adolygu Perfformiad

11.1 Bydd Prif Swyddog y Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol i'r Cydbwyllgor ac i bob Cyngor yn unigol ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflawni Swyddogaethau a Nodau Allweddol y Gwasanaeth. Bydd yr adroddiad yn adrodd yn benodol ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflawni'r Achos Busnes Llawn, a heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod, wrth gyflawni'r Deilliannau:

D1 Gwell safonau mewn llythrennedd (Cymraeg/Saesneg) a rhifedd (mathemateg) sy'n cymharu'n dda â'r goreuon mewn gwledydd eraill,

D2 Un gwasanaeth cydlynol ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd mewn ysgolion ar draws y rhanbarth,

D3 Defnyddio Arweinyddion System sy'n gweithredu mewn modd cyson, a chanddynt brawf o hanes diweddar o wella ysgolion,

D4 Yr holl ysgolion yn gallu cael mynediad at ystod llawer ehangach o gefnogaeth arbenigol na'r hyn sydd ar gael mewn Awdurdodau Lleol unigol ar hyn o bryd,

D5 Dim un Awdurdod Lleol, ysgol na sefydliad dysgu mewn unrhyw gategori Arolygu Estyn sy'n gofyn am welliant sylweddol neu fesurau arbennig.

11.2 Darperir adroddiad y Prif Swyddog i bob Cyngor ddim hwyrach na 31 Hydref mewn unrhyw flwyddyn.

## 12. Llety

12.1 Gall Cyngor ddarparu llety a chyfleusterau ar gyfer y Gwasanaeth i'r Awdurdod Lletya yn eiddo'r Cyngor, ar drwydded a thelerau i'w cytuno'n ysgrifenedig rhwng y Cyngor a'r Awdurdod Lletya.

12.2 Os darperir adeilad neu le yn Eiddo'r Cyngor, dylid eu darparu gyda'r cyfleusterau a ganlyn:

a) Gweinyddu ymwelwyr, pobl fasnach, y post a nwyddau danfon yn ystod oriau swyddfa;

b) Rheoli ardaloedd canolog;

c) Cymryd negeseuon yn anffurfiol gan y dderbynfa ganolog;

ch) Gwasanaethau trydan ac ati;

d) Glanhau;

dd) Darpariaeth o gyfleusterau hylendid a thraul;

e) Cynnal a chadw rhannau cyffredin, yn cynnwys boeleri, gosodiadau golau, lifftiau, switsfwrdd, ceblau a chyfleusterau cyfathrebu, systemau tân a diogelwch;

f) Cynnal a chadw'r gerddi a glanhau ffenestri;

ff) Gwaredu gwastraff ;

g) Yswiriant adeiladau gan gynnwys y rhannau cyffredin;

h) Rheolaeth Iechyd a Diogelwch gan gynnwys trefniadau rheoli tân ac asbestos;

i) Isadeiledd Technoleg Gwybodaeth;

l) Digon o lefydd parcio i staff ac ymwelwyr y Gwasanaeth

12.3 Bydd y ffi' am ddarparu llety ar sail cost yn unig, ac yn cynnwys cyfran deg o'r gost o ddarparu'r cyfleusterau a nodir yn 12.1 uchod, neu unrhyw gyfleusterau eraill o'r fath y cytunir arnynt o bryd i'w gilydd.

## 13. Gwarantau

13.1 Mae'r Cynghorau gyda'i gilydd a bob yn un:-

13.1.1 yn gwarantu'r Cyngor Lletya yn nhelerau'r Gwarantau ac yn cydnabod bod y Cyngor Lletya yn arwyddo'r Cytundeb hwn gan ddibynnu ar bob un Gwarant, a thybir bod y Gwarantau'n cael eu hailadrodd ar y Dyddiad Gweithredu gan gyfeirio at y ffeithiau sy'n bodoli ar y pryd CYN BELLED ag y tybir bod y Gwarantau'n cael eu hailadrodd yn amodol ar ddatgelu gwybodaeth sy'n codi ar ddyddiad y Cytundeb hwn, os yw'r Cytundeb yn darparu mecanwaith am ddatgeliad o'r fath, ac i'r graddau mae'n gwneud hynny;

13.1.2 yn indemnio'r Cyngor Lletya yn llawn rhag unrhyw Ymrwymiadau all ddod i law'r Cyngor Lletya yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i dorri unrhyw Warant mewn unrhyw fodd;

13.1.3 yn cytuno i ddatgelu cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib i'r Cyngor Lletya unrhyw beth a ddaw i'w sylw sy'n torri, neu allai dorri unrhyw Warant;

13.1.4 Oni bai ei fod wedi'i nodi fel arall, pan fo unrhyw Warant yn cyfeirio at wybodaeth, cred neu ymwybyddiaeth Cyngor ar wahân i'r Cyngor Lletya (neu fynegiad tebyg), tybir bod gan y Cyngor y fath wybodaeth, cred neu ymwybyddiaeth ag y byddai wedi'u cael petai wedi gwneud ymholiadau rhesymol i destun y Gwarant hwnnw;

13.1.5 Ni fydd Cyngor yn atebol yng nghyswllt unrhyw hawliad mewn perthynas â Gwarant a dorrwyd ganddo os yw'r Cyngor Lletya wedi adfer y golled a berwyd yn dilyn unrhyw hawliad arall, ac i'r graddau y gwnaeth hynny.

## 14. Ymrwymiadau

14.1 Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn gwneud y Cyngor Lletya yn atebol yng nghyswllt unrhyw beth a wnaed neu nas gwnaed gan Gyngor neu unrhyw Gyflogwr Perthnasol hyd at y Dyddiad Gweithredu, neu mewn perthynas â pharhad Swyddogaethau'r Gwasanaeth yn gyffredinol hyd at y Dyddiad Gweithredu eithr os mai'r Cyngor Lletya'n benodol oedd yn gyfrifol amdano dan y Cytundeb hwn.

14.2 Bydd y Cynghorau'n indemnio'r Cyngor Lletya yn llawn rhag unrhyw Golledion all ddod i law'r Cyngor Lletya yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o ganlyniad i unrhyw beth a wnaed neu nas gwnaed gan Gyngor neu unrhyw Gyflogwr Perthnasol, gan gynnwys unrhyw weithred,

methiant neu drafodion gan Gyngor neu unrhyw Gyflogwr Cyngor Perthnasol neu unrhyw amgylchiad sy'n codi yn sgil parhad Swyddogaethau'r Gwasanaeth hyd at y Dyddiad Gweithredu, ac felly os gwneir unrhyw hawliad gan unrhyw drydydd parti yng nghyswllt gwasanaethau a roddwyd hyd at y Dyddiad Gweithredu, bydd y Cyngor perthnasol yn cwrdd â'r hawliad yn llawn.

14.3 Bydd yr holl incwm a dderbynnir mewn perthynas â gwaith a wneir gan Gynghorau yng nghyswllt Swyddogaethau'r Gwasanaeth hyd at y Dyddiad Gweithredu yn cael ei gadw gan y Cyngor perthnasol, a bydd y Cyngor hwnnw'n parhau'n atebol am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith a wnaed, gwasanaethau a dderbyniwyd a nwyddau a dderbyniwyd hyd at y Dyddiad Gweithredu. Bydd unrhyw daliadau yng nghyswllt incwm o'r fath a delir i'r Cyngor Lletya yn cael eu talu i'r Cyngor Perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib, ond o fewn 28 Diwrnod Busnes o'i dderbyn ym mhob achos.

**15. Rheoliadau TUPE a Gweithwyr**

15.1 Cydnabyddir er dibenion Rheoliadau TUPE a'r Gyfarwyddeb (boed hwy'n berthnasol fel mater o gyfraith ai peidio) y bydd y trafodion y mae'r Cytundeb hwn yn ymdrin â hwy yn cael eu trin fel trosglwyddo ymgymeriadau'r Cynghorau ar y Dyddiad Gweithredu, ac felly gan ddod i rym ar y Dyddiad Gweithredu ymlaen, ni fydd contractau cyflogaeth pob un o'r Gweithiwyr sy'n Trosglwyddo yn cael eu terfynu gan y trafodion y darperir ar eu cyfer yn y Cytundeb hwn, ond byddant yn hytrach yn parhau i fod mewn grym ar y Dyddiad Gweithredu ac wedi hynny, fel pe'u gwnaed yn wreiddiol rhwng pob Gweithiwr sy'n Trosglwyddo a'r Cyngor Lletya ac eithrio i'r graddau y darperir ar eu cyfer gan y Rheoliadau Trosglwyddo ac/neu'r Gyfarwyddeb ond sy'n destun Cymal 18 isod.

15.2 mae'r Cynghorau'n cytuno, ar ôl dyddiad y Cytundeb hwn, na fyddant yn gwneud unrhyw un o'r canlynol heb gytundeb y Cyngor Lletya:

15.2.1 defnyddio neu gyflogi unrhyw berson nad yw ar hyn o bryd yn Weithiwr sy'n Trosglwyddo, a allai wedyn o ganlyniad i ddefnydd neu gyflogaeth o'r fath ddod yn Weithiwr sy'n Trosglwyddo; neu

15.2.2 gwneud newidiadau materol i delerau ac amodau cyflogaeth unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo neu Weithiwr.

15.3 Bydd y Cynghorau'n cyflawni eu holl rwymedigaethau mewn perthynas â'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo gan gynnwys, heb gyfyngiad, yr holl gostau a threuliau, cyflogau ac enillion eraill gan gynnwys, heb gyfyngiad, tâl gwyliau cronedig hyd at y Dyddiad Gweithredu. Bydd y Cynghorau'n indemnio'r Cyngor Lletya yn erbyn yr holl Golledion sy'n codi o'i fethiant i beidio â gwneud yr uchod, a bydd y Cyngor Lletya yn indemnio'r Cynghorau yn erbyn yr holl Golledion sy'n codi o fethiant y Cyngor Lletya i gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y cymal hwn.

15.4 O leiaf 14 diwrnod cyn y Dyddiad Gweithredu bydd y Cynghorau'n darparu Atodlen o Weithwyr sy'n Trosglwyddo i'r Cyngor Lletya yn y fformat a nodir yn Atodlen 5, ynghyd â'r Wybodaeth am Weithwyr y cyfeirir ati yn Atodlen 6. Bydd y Cynghorau'n hysbysu'r Cyngor Lletya cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol os ydynt yn dod yn ffurfiol ymwybodol o unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo sy'n rhoi rhybudd i ddarfod ei gyflogaeth, neu sy'n darfod ei gyflogaeth cyn y Dyddiad Gweithredu.

15.5 Bydd y Cynghorau'n darparu unrhyw wybodaeth arall i'r Cyngor Lletya y maent wedi cytuno i'w darparu i'r Cyngor Lletya o bryd i'w gilydd mewn perthynas â'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo.

## 16. Pensiynau

16.1 Mae'r Cynghorau'n gyflogwyr cofrestredig yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd y Gweithwyr sy'n Trosglwyddo yn parhau'n gymwys i fod yn aelodau gweithredol o'r CPLlL, o'r Dyddiad Gweithredu ymlaen drwy gyfrwng y Rheoliadau CPLlL. Bydd aelodaeth y Gweithwyr sy'n

Trosglwyddo yn y CPLIL gyda'r Cynghorau neu Cynnal Cyfyngedig , Cyflogwr Perthnasol yn cael ei gronni â'u haelodaeth yng Nghynllun Pensiwn y Cyngor Lletya.

16.2 Bydd yn yr Awdurdod Lletyol yn ei swyddogaeth fel awdurdod gweinyddol y Gronfa yn ymdrin a'r Gwasanaeth fel endyd ar wahan o fewn y Gronfa. Bydd y Gwasaneth yn destyn adrodd actiwaraidd penodol yn unol a Pholisiau'r Awdurdod Lletyol gan Actiwariad y Gronfa ac yn ymrwymiedig i raddfa Cyfranu Cylogwr penodol ( Cyfraniad Cyflogwr).

16.3 Ar neu cyn y Dyddiad Gweithredu gwneir gwerthusiad gan Actiwari y Gronfa er sefydlu yr asedau perthnasol ( gan gynnwys taliadau sydd i'w talu ond heb eu derbyn ) ymrwymiadau a'r Cyfraniad Cyflogwr a briodolir i'r cyflogeion a gyflogir yn y Gwasanaeth ac a gyfrifir ar y Dyddiad Gweithredu yn unol ar sail actiwradidd a ddefnyddir yng ngwerthusaid y Gronfa o dro i dro gan ddefnyddio y rhagdybiaethau ac amodau y farchnad sydd yn bodoli ar y Dyddiad Gweithredu.

16.4 Adolygir y gwerthusiad a gyfeirir ato yng nghymal 16.3 fesul tair blynnedd yn unol a'r Rheoliadau CPLIL a diwigir y Cyfraniad Cyflogwr yn unol a hynny.

16.5 Ymgorfforir Cyfraniad y Cyflogwr a sefydlir ac a adolygir yn unol a'r cymal yma yng Nghyllideb y Gwasanaeth yn flynyddol a bydd yn ffurfiio rhan o Ymrwymiadau'r Cynghorau.

16.6 Os bydd unrhyw un neu'r oll o'r Cynghorau yn Terfynu neu yn Tynnu'n Ol bydd actiwari y Cyngor Lletyol yn cynnal gwerthusiad er sefydlu yr asedau perthnasol ( gan gynnwys taliadau sydd i'w talu ond heb eu derbyn ) a'r ymrwymiadau a briodolir i'r cyflogai a gyflogir yn y Gwasanaeth fel y'i cyfrifi ar yDyddiad Terfynu neu Dynnu'n Ol . Serch darpariaethau Cymalau 2, 21 neu 22 bydd yn ofynnol i'r Cyngor sydd yn gadael o fewn 28 diwrnod o dderbyn hawliad dalu cyfran o'r ymrwymiadau yna sydd yn gyfartal a'i

ymrwymiad canranol I'r Gyllideb Gwasaneth ar gyfer y Flwyddyn Ariannol gyflawn olaf yn union cyn y Dyddiad Terfynu neu Dynnu'n Ol.

## 17. Ymgynghori gydag Undebau a Chynrychiolwyr Gweithwyr

17.1 Mewn da bryd cyn y Dyddiad Gweithredu, ac mewn unrhyw achos ddim hwyrach na'r hyn sy'n ofynnol yn y Rheoliadau TUPE, bydd y Cynghorau'n darparu gwybodaeth i'r Cynrychiolwyr Perthnasol ac yn ymgynghori â hwy yn unol â rheoliad 13 Rheoliadau TUPE ("**yr Ymgynghoriadau**").

17.2 Bydd y Cynghorau'n hysbysu'r Cyngor Lletya'n gyson ynghylch cynnydd yr Ymgynghoriadau a byddant yn cytuno, os yw'r Cyngor Lletya yn gofyn hynny, i adael i gynrychiolydd o'r Cyngor Lletya fynychu unrhyw gyfarfod rhwng y Cynghorau a'r Cynrychiolwyr Perthnasol ynglŷn â'r Ymgynghoriadau, ac ni fydd y caniatâd hwnnw'n cael ei atal na'i ohirio'n afresymol.

17.3 Bydd y Cynghorau'n indemnio'r Cyngor Lletya ac yn rhoi indemniad llawn i'r Cyngor Lletya rhag yr holl Golledion sy'n codi mewn cysylltiad â, neu o ganlyniad i unrhyw hawliad sy'n gysylltiedig â neu'n codi (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o unrhyw fethiant gan Gyngor i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth i hysbysu neu ymgynghori dan Reoliadau TUPE neu'r Gyfarwyddeb, boed hawliad o'r fath yn cael ei gyflwyno cyn neu wedi'r Dyddiad Gweithredu, eithr bod hawliad o'r fath yn codi oherwydd methiant y Cyngor Lletya i gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan reoliad 13 Rheoliadau TUPE.

17.4 Mae'r Cynghorau'n gwarantu y bydd y wybodaeth ar atebolrwydd dros weithwyr maent yn ei darparu dan reoliad 11 Rheoliadau TUPE yn gywir, yn gyflawn ac y bydd yn cael ei darparu oddi mewn i'r cyfnod amser gofynnol dan reoliad 11 Rheoliadau TUPE.

## 18. Indemniadau TUPE

18.1 Bydd y Cynghorau'n indemnio'r Cyngor Lletya ac yn parhau i'w indemnio rhag yr holl Golledion sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn cysylltiad â:-

18.1.1 Cyngor yn cyflogi neu'n terfynu cyflogaeth unrhyw Weithwyr sy'n Trosglwyddo (boed yn terfynu drwy rybudd neu beidio, ac os felly, pryd bynnag fo'r rhybudd hwnnw'n dod i ben) hyd at, ac yn cynnwys y Dyddiad Gweithredu;

18.1.2 unrhyw weithred, esgeulustod neu fethiant gan Gyngor hyd at, ac yn cynnwys y Dyddiad Gweithredu, mewn perthynas â chyflogaeth y Gweithwyr sy'n Trosglwyddo gan y Cyngor hwnnw, cyn belled na fydd yr indemniad hwn yn berthnasol os yw'r Cyngor Lletya yn gallu adfer y colledion dan Bolisi Atebolrwydd Cyflogwr Perthnasol;

18.1.3 unrhyw hawliad neu honiad gan gyn-weithiwr neu weithiwr presennol i Gyngor (ar wahân i Weithiwr sy'n Trosglwyddo) lle daw'r Cyngor Lletya'n gyfrifol neu'n atebol drosto o ganlyniad i weithredu Rheoliadau TUPE ac/neu'r Gyfarwyddeb, neu lle mae'r gweithiwr neu ei gynrychiolydd yn honni felly.

18.1.4 methiant Cyngor i ddarparu'r wybodaeth ar atebolrwydd gweithwyr dan reoliad 11 y Rheoliadau.

18.2 Os, ar ôl y Dyddiad Gweithredu, mae'r Cyngor Lletya'n dod yn ymwybodol o unrhyw weithiwr i Gyngor neu Gyflogwr Cyngor Perthnasol nad yw ei fanylion yn ymddangos yn Atodlen 5 ond y mae ei gontract cyflogaeth yn dod i rym ar ôl y Dyddiad Gweithredu (fel pe'i gwnaed yn wreiddiol rhwng y Cyngor Lletya a'r gweithiwr hwnnw) neu yr honnir felly yn unol â'r Rheoliadau Trosglwyddo ac/neu'r Gyfarwyddeb:-

18.2.1 o fewn 14 diwrnod o ddod yn ymwybodol o'r effaith neu'r honiad hwnnw, gall y Cyngor Lletya derfynu contract cyflogaeth y person hwnnw;

18.2.2 bydd y Cyngor yn indemnio'r Cyngor Lletya'n llawn rhag yr holl Golledion sy'n codi (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) mewn cysylltiad â therfyniad o'r fath, a rhag unrhyw swm fyddai'n daladwy i berson o'r fath, neu mewn perthynas â pherson o'r fath, neu yng nghyswllt cyflogaeth person o'r fath gyda'r Cyngor, ac o'r Dyddiad Gweithredu hyd ddyddiad terfyniad o'r fath; ac

18.2.3 er osgoi amheuaeth, o ran yr indemniadau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cytundeb hwn er lles y Cyngor Lletya, gellir adfer unrhyw Golledion ddaw i law'r Cyngor Lletya sy'n codi o hawliad a wneir gan Weithiwr sy'n Trosglwyddo neu ar ei ran, gan Gyngor, er bod y Gweithiwr sy'n Trosglwyddo wedi'i drosglwyddo i Gyflogwr Perthnasol, a waeth a yw'r hawliad yn cael ei wneud gan Weithiwr sy'n Trosglwyddo yn erbyn y Cyngor Lletya neu yn erbyn y Cyflogwr Perthnasol.

18.3 Pe bai gan barti'r fantais o indemniad mewn perthynas â hawliad, ni fydd yn setlo'r hawliad hwnnw nac yn cyfaddef ei fod yn atebol mewn unrhyw fodd heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig y sawl sy'n rhoi'r indemniad ymlaen llaw (fydd ddim yn cael ei atal na'i ohirio'n afresymol).

18.4 Cytunir y bydd gan y Cyngor Lletya'r fantais o unrhyw hawl i indemniad sydd gan Gyngor dan Bolisi Atebolrwydd Cyflogwr Perthnasol, neu'n unol â hwnnw. Mae pob Cyngor drwy hyn yn neilltuo'n llwyr ac yn ddiamod i'r Cyngor Lletya mantais pob hawl, teitl a buddiant sydd ganddo dan unrhyw Bolisi Atebolrwydd Cyflogwr Perthnasol, neu'n unol â Pholisi o'r fath, cyn belled â'i fod hefyd yn rhoi'r hawl i indemniad mewn perthynas ag unrhyw Weithwyr. Bydd y partïon yn hysbysu'r yswirwyr ar y cyd o hyn, neu bydd gan y Cyngor Lletya yr hawl i roi hysbysiad o'r fath i yswirwyr (ar ran y

Cyngor pan fo angen). Bydd y partïon yn ymdrechu bob un i drefnu i gael enw'r Cyngor Lletya wedi'i ardystio ar unrhyw Bolisi Atebolrwydd Cyflogwr Perthnasol fel enw sydd wedi'i yswirio (naill ai yn ychwanegol i enw'r Gwerthwr, neu yn ei le, fel sy'n briodol) yng nghyswllt hawliadau a wneir gan unrhyw Weithiwr mewn perthynas â ffeithiau neu amgylchiadau sy'n codi ar y Dyddiad Gweithredu neu cynt.

## 19. Eiddo Deallusol

19.1 Bydd pob Cyngor yn cadw Eiddo Deallusol yn ei Ddeunydd.

19.2 Bydd pob Cyngor yn rhoi i bob Cyngor arall drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd o unrhyw freindal, i ddefnyddio, addasu, newid a datblygu ei Ddeunydd ED er dibenion y Gwasanaeth ac er unrhyw ddiben arall sy'n deillio o'r Gwasanaeth, waeth a yw'r parti sy'n rhoi'r drwydded yn parhau i fod yn barti yn y Cytundeb neu'r Gwasanaeth ai peidio.

19.3 Heb ragfarnu Cymal 18.1, os oes mwy nac un Cyngor yn berchen ar Ddeunydd ED, neu a chanddynt hawl neu fuddiant llesol neu gyfreithiol ar unrhyw agwedd o'r Deunydd ED am unrhyw reswm (gan gynnwys, heb gyfyngiad, na all yr un Cyngor unigol ddangos ei fod wedi cyflenwi neu greu'r Deunydd ED perthnasol yn annibynnol heb gymorth un neu fwy o'r Cynghorau eraill), bydd pob un o'r Cynghorau a gyfrannodd at y Deunydd ED perthnasol yn rhoi i bob Cyngor arall yn y Cytundeb hwn drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd o unrhyw freindal, i ddefnyddio a manteisio ar Ddeunydd ED o'r fath fel petai'r holl Gynghorau eraill yw unig berchennog y Deunydd dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 neu unrhyw statud perthnasol arall neu reol mewn cyfraith.

19.4 Er osgoi amheuaeth, bydd gan unrhyw endid neu berson sy'n barti i'r Cytundeb hwn ar ddyddiad y Cytundeb, ac sydd wedi trwyddedu unrhyw

Eiddo Deallusol dan y Cytundeb hwn, hawl anghyfyngedig a pharhaol i barhau i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol trwyddedig.

19.5 Mae pob Cyngor yn gwarantu bod ganddo, neu y bydd ganddo'r hawliau angenrheidiol i ganiatáu'r trwyddedau sydd wedi'u nodi yng Nghymal 19.2 a 19.3 yng nghyswllt y Deunydd ED sydd i'w drwyddedu.

19.6 Mae pob Cyngor yn cytuno i weithredu unrhyw gamau neu ddogfennau pellach neu'n cytuno i wneud unrhyw beth mae Cyngor arall yn gwneud cais rhesymol amdano (ar gost(au) y Cyngor/Cynghorau'n sy'n gwneud y cais) i roi grym llawn i delerau'r Cytundeb hwn yng nghyswllt rheoli a rheolaeth Eiddo Deallusol.

## 20. Atebolrwydd y Cynghorau

20.1 Eithr lle darperir yn benodol ar ei gyfer yng nghymal 13-18 uchod:-

20.1.1 Bydd y Cyngor Lletya yn indemnio pob un o'r Cynghorau eraill yn y Cytundeb hwn ac yn parhau i'w hindemnio rhag unrhyw golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau ac atebolrwydd sy'n wynebu'r Cyngor hwnnw, os yw hynny'n codi o'r ffaith fod y Cyngor Lletya wedi torri ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn mewn rhyw fodd, neu'n codi o unrhyw weithred esgeulus neu o beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath, a bydd y Cyngor Lletya yn talu i'r Cynghorau eraill y symiau mae'n atebol amdanynt dan y Cymal hwn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes o ddyddiad derbyn gorchymyn ysgrifenedig gan Gyngor arall;

20.1.2 Ni wneir unrhyw hawliad yn erbyn y Cyngor Lletya i adfer unrhyw golled neu niwed allai ddigwydd wrth i'r Cyngor Lletya gyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn, neu sy'n codi o hynny, oni bai ac i'r graddau fod y fath golled neu niwed yn codi o'r ffaith fod y Cyngor Lletya wedi torri ei rwymedigaethau dan Gymal 20.1;

20.1.3 Bydd pob un o'r Cynghorau eraill (yn gweithredu bob yn un) yn indemnio'r Cyngor Lletya ac yn parhau i'w indemnio rhag yr holl golledion, hawliadau, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau ac ymrwymiadau allai ddod i law'r Cyngor Lletya wrth iddo gyflawni ei ymrwymiadau dan y Cytundeb hwn ar gyfer y Cyngor hwnnw, neu sy'n codi o hynny, neu sy'n codi o'r ffaith fod Cyngor wedi torri ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn, wedi bod yn esgeulus neu wedi peidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â rhwymedigaethau o'r fath, oni bai ac i'r graddau fod yr uchod yn codi o'r ffaith fod y Cyngor Lletya wedi torri unrhyw rwymedigaethau o'r fath, wedi bod yn esgeulus neu wedi peidio â gwneud rhywbeth, a bydd pob Cyngor yn talu i'r Cyngor Lletya y symiau maent yn atebol amdanynt dan y Cymal hwn o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes o ddyddiad derbyn gorchymyn ysgrifenedig y Cyngor Lletya.

20.2 Mae'r Cynghorau'n cytuno ac yn cydnabod y bydd y cyfanswm sy'n ddyledus i'r Cyngor Lletya gan unrhyw un o'r Cynghorau eraill dan y Cymal hwn yn cael ei dalu gan bob un Cyngor i'r graddau mae'n gyfrifol amdano, fodd bynnag, os yw'r cyfrifoldeb yn un a rennir rhwng y Cynghorau (fel nad yw'n rhesymol ymarferol pennu'r union gyfrifoldeb rhwng y Cynghorau), fe rennir y swm dyledus yn gyfartal rhwng y Cynghorau.

20.3 Pe ceid hawliad dan y Cymal hwn lle nad yw'n rhesymol ymarferol pennu i ba raddau mae pob Cyngor yn gyfrifol (gan gynnwys y Cyngor Lletya), caiff y swm ei rannu'n gyfartal rhwng y Cynghorau (gan gynnwys y Cyngor Lletya).

20.4 Bydd Cyngor (yn cynnwys y Cyngor Lletya) sy'n derbyn hawliad am golledion, treuliau, gweithredoedd, gorchmynion, costau ac ymrwymiadau yn rhoi gwybod i'r Cynghorau eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ac yn darparu manylion yr hawliad iddynt.

20.5 Ni fydd unrhyw Gyngor yn cael ei indemnio'n unol â'r Cymal hwn oni bai ei fod wedi rhoi rhybudd yn unol â'r Cymal hwn i'r Cyngor arall y bydd yn gorfodi ei hawl i indemniad dan y Cytundeb hwn yn ei erbyn.

20.6 Ni fydd unrhyw Gyngor ("yr Indemniwr") yn gyfrifol ac ni fydd raid iddo indemnio'r Cynghorau eraill (gan gynnwys y Cyngor Lletya) ("y Buddiolwr") os yw unrhyw yswiriant a gedwir gan y Buddiolwr ar yr adeg berthnasol yn rhoi indemniad rhag y golled sydd wedi arwain at hawliad o'r fath, ac os yw'r Buddiolwr yn adfer y golled dan bolisi yswiriant o'r fath (eithr mai'r Indemniwr fydd yn gyfrifol am y swm a ddidynnir dan unrhyw bolisi yswiriant o'r fath ac am unrhyw swm dros yr uchafswm sydd wedi'i yswirio dan bolisi yswiriant o'r fath).

20.7 Mewn perthynas â phob indemniad a nodir yn y Cytundeb hwn, bydd y sawl sydd â'r budd yn cymryd pob cam rhesymol i liniaru unrhyw Golledion neu golled neu atebolrwydd arall sydd wedi dod i'w ran o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau a arweiniodd at yr hawliad.

**21. Tynnu'n Ôl**

21.1 Yn amodol ar Gymal 2 os yw unrhyw Gyngor (yn cynnwys y Cyngor Lletya) am unrhyw reswm yn penderfynu tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn bydd y cymal hwn yn berthnasol. Wrth benderfynu neu ymateb i unrhyw benderfyniad neu gynnig i Dynnu'n Ôl o'r Cytundeb yn unol â'r cymal hwn, rhaid i'r Cynghorau roi ystyriaeth i Egwyddorion y Bartneriaeth a chychwyn y Weithdrefn Datrys Anghydfod (Cymal 31), gyda'r bwriad o ganfod ateb fydd yn cynnal y Bartneriaeth.

21.2 Os yw unrhyw Gyngor yn dymuno tynnu'n ôl o'r Gwasanaeth bydd yn darparu rhybudd ysgrifenedig yn nodi ei fwriad i dynnu'n ôl o'r Gwasanaeth. Cyflwynir rhybudd o'r fath i bob Cyngor a bydd yn darparu o leiaf 12 mis o rybudd ymlaen llaw, fydd yn dod i ben ar y 31ain dydd o fis Awst. ("**Rhybudd Tynnu'n Ôl**"). Bydd y Cyngor Lletya (neu Gyngor arall a

enwebir gan y Cydbwyllgor os mai'r Cyngor Lletya sy'n cyflwyno'r Rhybudd Tynnu'n Ôl) o fewn dau ddeg wyth (28) diwrnod o dderbyn y Rhybudd Tynnu'n Ôl yn darparu Adroddiad Atebolrwydd i'r holl Gynghorau, yn y ffurf a nodir yn Atodlen, sy'n amlinellu'r costau disgwyliedig i'r Cynghorau eraill yn dilyn y tynnu'n ôl, a chaiff hwn ei drafod gan y Cydbwyllgor yn ei gyfarfod nesaf neu mewn cyfarfod arbennig os yw'r cyfarfod nesaf yn digwydd fwy na dau ddeg wyth (28) diwrnod ar ôl cyflwyno'r Adroddiad Atebolrwydd. Bydd gan y Cynghorau hynny nad ydynt yn dymuno tynnu'n ôl o'r Gwasanaeth ddyletswydd, gan weithredu'n rhesymol, i liniaru unrhyw golledion allant eu dioddef oherwydd y goblygiadau o ran arian ac adnoddau sydd wedi'u nodi yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

21.3 O fewn 28 diwrnod o gyflwyno'r Adroddiad Atebolrwydd bydd y Cyngor sydd yn tynnu'n ôl yn dynodi'n ysgrifenedig ei fod un ai:-

21.3.1 yn tynnu'n ôl o'r Gwasanaeth a'r Cytundeb hwn; neu

21.3.2 yn dymuno parhau â'r Gwasanaeth a'r Cytundeb hwn.

21.4 Pan nad yw Cyngor yn nodi ei fwriad fel sy'n ofynnol yng Nghymal 21.2.2, tybir ar y dyddiad pan ddaw'r Cyfnod Penderfynu i ben ei fod wedi dynodi ei fod yn dymuno parhau â'r Gwasanaeth a'r Cytundeb hwn.

21.5 Pan fo Cyngor yn dynodi ei fod yn dymuno tynnu'n ôl o'r Gwasanaeth yn unol â Chymal 22.1 yna bydd y Cyngor sydd wedi nodi ei ddymuniad i dynnu'n ôl yn talu'r holl symiau sy'n ddyledus ganddo yn unol â'r Adroddiad Atebolrwydd o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes o ddyddiad ei Rybudd dan Gymal 21.2, ac yn cydymffurfio â'i rwymedigaeth i gyfrannu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad y bydd yn tynnu'n ôl;

21.6 Er osgoi amheuaeth, bydd y Cyngor sydd wedi nodi ei ddymuniad i dynnu'n ôl o'r Gwasanaeth yn tynnu ei gynrychiolwyr oddi ar y Cydbwyllgor ar y dyddiad y mae'n cadarnhau tynnu'n ôl dan Gymal 21.3.

## 22. Tanberfformiad gan y Gwasanaeth

22.1 Os yw unrhyw Gyngor (gan gynnwys y Cyngor Lletya) am unrhyw reswm yn ystyried bod y Gwasanaeth yn methu neu'n cyfrannu'n sylweddol at fethiant i gyflawni'r Deilliannau, gall gyflwyno rhybudd (**Rhybudd o Fethiant**) i'r Prif Swyddog yn unol â 21.2 isod. Cyflwynir copi o'r Rhybudd o Fethiant a gwybodaeth gefnogol i bob Cyngor ar yr un pryd.

22.2 Bydd y Rhybudd o Fethiant yn rhoi manylion, gan gyfeirio at y cytundeb hwn ac at yr Achos Busnes Llawn;

- y materion y mae'r Rhybudd o Fethiant wedi'i gyflwyno yn eu cylch
- y dystiolaeth neu'r wybodaeth y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n cefnogi'r Rhybudd o Fethiant, i gynnwys dogfennaeth, data neu ddeunydd arall cefnogol
- y camau penodol mae'r Cyngor yn ystyried sy'n angenrheidiol i wella neu gywiro'r methiant.

22.3 Bydd y Prif Swyddog o fewn dau ddeg wyth (28) diwrnod o dderbyn y Rhybudd o Fethiant yn rhoi i'r holl Gynghorau ymateb i'r Rhybudd o Fethiant, ac os yw'n briodol, bydd yr ymateb yn cynnig camau gweithredu ac amserlen (Amserlen Gywiro) i gywiro unrhyw fethiant a adnabuwyd, a chaiff hwn ynghyd â'r Rhybudd o Fethiant eu trafod gan y Cydbwyllgor yn ei gyfarfod nesaf, neu mewn cyfarfod arbennig os yw'r cyfarfod nesaf yn digwydd fwy na dau ddeg wyth (28) diwrnod ar ôl i'r Prif Swyddog gyflwyno'i ymateb.

22.4 Gall y Cydbwyllgor benderfynu:

22.4.1 Nad yw'r Rhybudd o Fethiant yn gofyn am unrhyw weithredu pellach

22.4.2 Mabwysiadu'r cynllun gweithredu sy'n cael ei gynnig mewn ymateb

22.4.3 Mabwysiadu cynllun gweithredu sydd wedi'i amrywio mewn ymateb

22.5 Os, pan fo'r Cyfnod Cywiro wedi dod i ben, yw'r Cydbwyllgor yn penderfynu nad yw'r materion a arweiniodd at gyflwyno Rhybudd o Fethiant wedi cael eu cywiro i raddau digonol, gall y Cyngor a gyflwynodd y Rhybudd o Fethiant gyflwyno Rhybudd Tynnu'n Ôl yn unol â Chymal 21 (Tynnu'n Ôl), ond ni fydd yn destun y broses Adroddiad Atebolrwydd. Rhaid cyflwyno'r Rhybudd Tynnu'n Ôl i'r Awdurdod Lletya o fewn dau ddeg wyth (28) diwrnod o ddyddiad penderfyniad y Cydbwyllgor.

22.6 Wrth gychwyn camau gweithredu neu wrth ymateb dan y cymal hwn, rhaid i'r holl Gynghorau a'r gwasanaeth roi sylw bob tro i Egwyddorion y Bartneriaeth a chychwyn y Weithdrefn Datrys Anghydfod (Cymal 31) gyda'r bwriad o ganfod ateb fydd yn cynnal y Bartneriaeth.

## 23. Cyfrinachedd a Chyhoeddiadau

23.1 Bydd pob Cyngor, yn ystod oes y Cytundeb hwn a thrwy'r adeg wedi iddo derfynu neu ddod i ben, yn cadw unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol am y busnes neu Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i unrhyw Gyngor arall, ac sydd wedi dod i'w sylw drwy'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef, yn breifat ac yn gyfrinachol, ac ni fydd yn ei defnyddio na'i datgelu (boed hynny er ei fudd ei hun neu er budd trydydd parti).

23.2 Ni fydd y rhwymedigaeth a nodir yn y Cymal hwn yn berthnasol i wybodaeth:-

23.2.1 sy'n dod i'r byd cyhoeddus neu a gaiff wedyn ei datgelu i'r cyhoedd (oni bai fod hynny drwy fethiant ar ran y Cyfamodwr neu unrhyw berson arall y mae gan y Cyfamodwr hawl i ddatgelu gwybodaeth iddo dan y Cytundeb hwn); neu

23.2.2 y mae'n ofyn cyfreithiol i'w datgelu; neu

23.2.3 oedd eisoes ym meddiant y Cyngor (heb gyfyngiadau o ran ei defnydd) ar ddyddiad ei derbyn; neu

23.2.4 lle mae rheolau unrhyw gorff llywodraethol neu reolaethol gan gynnwys unrhyw ganllawiau o bryd i'w gilydd yn gofyn neu'n argymell bod gwybodaeth yn agored ac yn cael ei datgelu gan gyrff cyhoeddus; neu

23.2.5 sydd rhaid ei datgelu er mwyn darparu gwybodaeth berthnasol i yswiriwr neu frocer yswiriant mewn perthynas â chael unrhyw yswiriant sy'n ofynnol dan y Cytundeb hwn.

23.3 Pan ganiateir datgelu gwybodaeth dan Gymal 23.2, 23.2.4, 23.2.5 bydd y sawl sy'n derbyn y wybodaeth yn destun rhwymedigaeth cyfrinachedd tebyg i'r un yng Nghymal 22.1, a bydd y Cyngor sy'n datgelu'r wybodaeth yn rhoi gwybod am hyn i'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth.

23.4 Ni fydd unrhyw Gyngor yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus neu ddatganiad i'r wasg nac yn cyhoeddi unrhyw ddogfen gyhoeddus arall sy'n ymwneud â, yn gysylltiedig â neu'n codi o'r Cytundeb hwn heb ymgynghori â'r Awdurdod Lletya.

## 24. Contractau (Hawliau Trydydd Parti)

Nid yw'n fwriad gan y Cynghorau fel partïon i'r Cytundeb hwn i unrhyw un o'i delerau allu cael eu gorfodi dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw unigolyn nad yw'n barti iddo.

## 25. Rhybuddion

25.1 Bydd unrhyw rybudd neu orchymyn mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfon â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post danfon arbennig, neges ffacs neu e-bost, gyda chyfeiriad neu rif ffacs y derbynnydd cywir wedi'i nodi arno fel y nodir yn Atodlen 8 (Cyfeiriadau'r Cynghorau) neu gyfeiriad neu rif ffacs derbynnydd arall gaiff

ei hysbysu o bryd i'w gilydd gan unrhyw un o bartïon y Cytundeb hwn i holl Gynghorau eraill y Cytundeb hwn.

25.2 Tybir bod y rhybudd neu'r gorchymyn wedi'i gyflwyno'n briodol os:-

25.2.1 danfonwyd ef â llaw, a'i gadawyd yn y cyfeiriad priodol i'w gyflwyno;

25.2.2 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, bedwar deg wyth (48) awr ar ôl iddo gael ei bostio (ac eithrio dyddiau nad ydynt yn Ddiwrnodau Busnes);

25.2.3 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy neges ffacs, ar adeg ei drosglwyddo;

25.2.4 rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy e-bost, ar adeg ei drosglwyddo

cyn belled ag yn achos danfon â llaw neu drosglwyddo drwy neges ffacs neu e-bost, y caiff ei ddanfon neu ei drosglwyddo naill ai ar ôl 4.00pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, tybir bod y rhybudd/gorchymyn wedi'i gyflwyno am 9.00am ar y Diwrnod Busnes nesaf.

25.3 Er osgoi amheuaeth, pan gyflwynir achosion lle mae'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yn berthnasol, rhaid cydymffurfio â darpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Sifil yng nghyswllt cyflwyno dogfennau mewn cysylltiad â'r achosion hynny.

**26. Cyfraith Lywodraethu**

Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr a Chymru ym mhob cyswllt, ac fe'i dehonglir yn unol â hynny. Yn amodol ar Gymal 31 (Datrys Anghydfod), bydd gan Lysoedd Lloegr a Chymru awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod allai godi o'r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad ag ef.

## 27. Aseiniadau

27.1 Ni chaiff hawliau a rhwymedigaethau'r Cynghorau dan y Cytundeb hwn eu neilltuo, eu hamnewid neu fel arall eu trosglwyddo (boed hynny drwy ddeddfwriaeth neu unrhyw gynllun sy'n dilyn unrhyw ddeddfwriaeth neu fel arall) i unrhyw berson.

## 28. Ildio Hawl

28.1 Ni fydd unrhyw fethiant neu ohiriad gan unrhyw Gyngor i gyflawni unrhyw hawl, pŵer neu gywiriad yn golygu ei fod yn eu hildio, ac ni fydd eu gweithredu'n rhannol yn atal unrhyw weithredu pellach ar y rhain neu ryw hawl, pŵer neu gywiriad arall, oni bai fod y Cyngor hwnnw'n eu hildio'n ysgrifenedig.

28.2 Bydd pob Cyngor yn talu ei gostau ei hun mewn cysylltiad â pharatoi, cyflawni, cwblhau a gweithredu'r Cytundeb hwn.

## 29. Y Cytundeb Cyflawn

Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl delerau y mae'r partïon wedi cytuno iddynt mewn perthynas â thestun y Cytundeb hwn, ac mae'n disodli unrhyw gytundebau, sylwadau neu ddealltwriaethau blaenorol, ysgrifenedig neu lafar, rhwng y Cynghorau ynghylch y testun dan sylw. Nid yw'r un Cyngor wedi'i gymell i ymrwymo i'r Cytundeb hwn nac i unrhyw un o'r dogfennau hyn drwy ddatganiad neu addewid nad ydynt yn eu cynnwys, ond ni fydd y Cymal hwn yn eithrio fel arall unrhyw atebolrwydd fyddai gan un Cyngor at y llall mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad a wnaed drwy dwyll gan y Cyngor hwnnw.

## 30. Gwrthrannau

Gellir cyflawni'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau, a bydd pob un o'r rheini'n gopi gwreiddiol os gweithredir hwy felly, ond gyda'i gilydd un ac yr un offeryn fyddant.

## 31. Perthynas y Cynghorau

Mae pob Cyngor yn gorff annibynnol ac nid oes dim sydd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb hwn gaiff ei ddehongli i awgrymu bod yna berthynas rhwng Cynghorau'r Bartneriaeth neu (ac eithrio pan ddarperir yn llwyr am hynny yn y Cytundeb hwn) brimas/asiant neu gyflogwr/gweithiwr. Ni fydd gan yr un Cyngor yr hawl i weithredu ar ran Cyngor arall nac ymrwymo'r llall drwy gontract neu fel arall, ac eithrio i'r graddau y caniateir yn glir iddo wneud hynny yn nhelerau'r Cytundeb hwn. Yn benodol er osgoi amheuaeth, ni chymrir bod unrhyw un o'r darpariaethau sy'n ymwneud ag egwyddorion gweithio mewn partneriaeth yn sefydlu unrhyw bartneriaeth fel y diffinnir yn y Ddeddf Partneriaeth 1890.

## 32. Datrys Anghydfod

32.1 Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw agwedd o'r Cytundeb hwn yn cael ei ddatrys yn unol â'r Cymal hwn. Mae'r Cynghorau'n ymrwymo ac yn cytuno i ddilyn ymagwedd bositif tuag at ddatrys anghydfod sy'n ceisio (yng nghyd-destun y Bartneriaeth hon a'i nodau) canfod ateb, gyda'r bwriad o osgoi'r angen i gychwyn proses Datrys Anghydfod ffurfiol neu weithdrefnau cyfreithiol, a chynnal perthynas weithio gref rhwng y Cynghorau.

32.2 Mewn unrhyw achos o anghydfod neu wahaniaeth rhwng y Cynghorau'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn neu'r Gwasanaeth (boed hynny'n fater o ddehongli'r contract neu fel arall), yna, ac eithrio mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb ynghylch Mater a Gedwir i'r Cynghorau, ymdrinnir â'r mater fel a ganlyn, gan ei gyfeirio yn y lle cyntaf i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fydd yn cyfarfod o fewn deng (10) Diwrnod Busnes o gael ei hysbysu o'r fath anghydfod, i geisio datrys y mater cynhennus mewn modd didwyll.

32.3 Mewn perthynas ag anghydfod neu anghytundeb sy'n ymwneud â Mater a Gedwir i'r Cynghorau, neu os yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn methu â datrys yr anghydfod neu'r anghytundeb o fewn pum (5) Diwrnod Busnes yn unol â Chymal 31.2, neu'n methu â chyfarfod yn unol â'r amserlen a nodir yng Nghymal 31.3, gall y Cynghorau sydd mewn anghydfod (yn ôl fel bo'n digwydd) gyfeirio'r mater at:

32.3.1 broses gyflafareddu sy'n cael ei hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, neu barti arall o'r fath y mae'r Cynghorau'n cytuno arno i ddatrys yr anghydfod; neu

32.3.2 awdurdodaeth gyfyngedig Llysoedd Lloegr neu Gymru fel arall.

32.4 Bydd unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb sydd i'w datrys gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (fel sy'n briodol), neu Lysoedd Lloegr neu Gymru neu gorff arall o'r fath y mae'r Cynghorau'n cytuno arno (yn ôl fel bo'n digwydd) dan y Cytundeb hwn yn cael eu cyfeirio atynt ar fyrder er mwyn iddynt wneud penderfyniad.

32.5 Bydd y Cynghorau, ar gais, yn rhoi ar fyrder i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (os mai dyna'r achos) unrhyw gymorth, dogfennau a gwybodaeth allai fod arno eu hangen er mwyn gwneud penderfyniad, a bydd y Cynghorau'n defnyddio pob ymdrech resymol i gael penderfyniad buan ar gyfeiriad o'r fath.

32.6 Bydd costau datrys unrhyw anghydfod ac/neu anghytundeb rhwng y Cynghorau dan y Cytundeb hwn yn cael eu hysgwyddo'n gyfartal gan y Cynghorau sy'n destun yr anghydfod dan sylw, ac eithrio os yw Prif Weithredwr/wyr Llysoedd Lloegr neu Gymru (os mai dyna'r achos) yn cyfarwyddo fel arall.

## 33. Diogelu Data a Rhannu Gwybodaeth

33.1 Mewn perthynas â phob Data Personol, bydd pob Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data bob amser (fel rheolydd data os oes angen) sy'n cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) cadw cofrestriad neu hysbysiad dilys a diweddar dan y Ddeddf Diogelu Data sy'n diogelu'r holl weithgareddau prosesu data fydd yn cael eu perfformio mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth.

33.2 Mae'r Cynghorau'n cytuno y byddant yn darparu i'r Gwasanaeth unrhyw wybodaeth, data, ystadegau neu gofnodion y mae ar y Gwasanaeth eu hangen yn rhesymol i ddarparu'r Gwasanaethau, neu wasanaethau eraill o'r fath fel y cânt eu comisiynu o bryd i'w gilydd gan y Cynghorau. Bydd y Cynghorau'n glynu at unrhyw Brotocolau Rhannu Gwybodaeth a ddatblygir oddi mewn i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn unol â'r fframwaith WASPI wrth rannu data personol dan y Cytundeb hwn.

33.3 Er y rhwymedigaeth gyffredinol yng nghymal 32.2, pan fo unrhyw *Gyngor gan gynnwys yr Awdurdod Lletya yn y capasiti hwnnw ar ran y Gwasanaeth neu'r Gwasanaeth* yn prosesu data personol (fel y diffinnir gan y DdDD) fel prosesydd data, *dylai hwnnw* sicrhau fod ganddo fesurau technegol a chytundebol priodol ar waith i sicrhau diogelwch y data personol (ac i ddiogelu rhag prosesu'r data personol yn anghyfreithlon neu'n anawdurdodedig, a rhag colli neu ddinistrio'r data personol yn ddamweiniol neu ei ddifrodi), fel sy'n ofynnol dan y Seithfed Egwyddor Diogelu Data yn Atodlen 1 y DdDD; a

(a) rhoi i unrhyw Gyngor arall unrhyw wybodaeth allai'r Cyngor hwnnw fod arno'i angen yn rhesymol i fodloni'i hun fod y Cyngor yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau dan y DdDD;

(b) rhoi gwybod ar fyrder i unrhyw Gyngor am unrhyw achos o dorri'r mesurau diogelwch y mae gofyn eu rhoi ar waith yn unol â chymal 23.3; a

33.3 Sicrhau nad yw'n gwneud rhywbeth neu'n peidio â gwneud rhywbeth, bod hynny'n fwriadol neu'n esgeulus, fyddai'n peri i unrhyw Bartner fynd yn groes i'w rwymedigaethau dan y DdDD.

33.4 Bydd y Cynghorau oll yn cymryd camau rhesymol ymlaen llaw (gan roi sylw i natur eu rhwymedigaethau bob un dan y Cytundeb hwn) i warchod cywirdeb unrhyw Ddata Personol.

## 34. Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol

34.1 Mae pob Cyngor yn cydnabod bod y Cynghorau eraill yn destun gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**DRhG**") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("**RhGA**") a bydd pob Cyngor pan fo hynny'n rhesymol yn cynorthwyo a chydweithredu â'r Cynghorau eraill (ar eu traul eu hunain) i alluogi'r Cynghorau eraill gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hyn o ran rhyddhau gwybodaeth.

34.2 Pan fo Cyngor yn derbyn cais am wybodaeth dan naill ai'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ynghylch gwybodaeth mae'n ei dal ar ran unrhyw un o'r Cynghorau eraill mewn perthynas â'r Gwasanaeth, bydd yn:-

34.2.1 trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r Cynghorau eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn dau (2) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;

34.2.2 rhoi copi i'r Cynghorau eraill o'r holl wybodaeth sy'n ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosto, yn y ffurf y mae'r Cynghorau'n gofyn yn rhesymol amdano, o fewn deng (10) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r Cynghorau'n nodi hynny) o pan fo'r Cyngor yn gwneud y cais am y wybodaeth; ac

34.2.3 yn rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r Cynghorau eraill wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi'r Cyngor i ymateb i gais am

wybodaeth o fewn yr amserlen a ganiateir yn y DdRhG neu'r RhGA.

34.3 Pan fydd Cyngor yn derbyn cais am wybodaeth dan y DdRhG neu'r RhGA sy'n berthnasol i'r Cytundeb hwn neu i'r Gwasanaeth, bydd yn rhoi gwybod i'r Cynghorau eraill am y cais am wybodaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o leiaf ddau (2) Ddiwrnod Busnes cyn rhyddhau'r wybodaeth, a bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i ymgynghori â'r Cynghorau eraill cyn ei rhyddhau, ac yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed gan y Cynghorau eraill mewn perthynas â'r penderfyniad i un ai rhyddhau'r wybodaeth y gofynnir amdani neu beidio.

34.4 Bydd y Cynghorau'n gyfrifol am benderfynu yn ôl eu dewis eu hunain yn llwyr p'un a yw gwybodaeth y ceisiwyd amdani dan y DdRhG neu'r RhGA:-

34.4.1 yn eithriedig rhag ei rhyddhau dan y DdRhG neu'r RhGA;

34.4.2 i gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth.

34.5 Mae pob Cyngor yn cydnabod y bydd rhaid i'r Cynghorau eraill dan y DdRhG neu'r RhGA, o bosib, ryddhau gwybodaeth:-

34.5.1 heb ymgynghori â'r Cynghorau eraill lle nad oedd yn ymarferol i gael ymgynghoriad o'r fath; neu

34.5.2 yn dilyn ymgynghori â'r Cynghorau eraill ac ar ôl rhoi llwyr ystyriaeth i'w barn hwy.

## 35. Mesurau Lliniaru

Bydd pob Cyngor bob amser yn cymryd pob cam rhesymol i leihau a lliniaru unrhyw golled y mae gan y Cyngor perthnasol hawl i wneud hawliad amdano yn erbyn y Cyngor/Cynghorau eraill dan y Cytundeb hwn.

**36. Cyfrifoldebau Statudol**

Er unrhyw beth sydd i'w weld i'r gwrthwyneb yn y Cytundeb hwn, wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol, ni chaiff disgresiwn unrhyw Gyngor ei lyffetheirio neu fel arall ei effeithio gan delerau'r Cytundeb hwn.

**37 Amrywiadau**

Ni fydd unrhyw newid i'r Cytundeb hwn yn rhwymo'r un parti hyd nes ei fod yn ysgrifenedig ac wedi'i arwyddo gan gynrychiolwyr awdurdodedig pob Cyngor, ac y datganwyd ei fod er diben newid o'r fath.

**FEL Y TYSTIWYD** mae'r cynrychiolwyr a awdurdodwyd yn briodol gan y Cynghorau wedi arwyddo'r Cytundeb hwn fel gweithred ar y dyddiad sydd wedi'i ysgrifennu ar gychwyn y Cytundeb hwn.

# ATODLEN 1

## ATODLEN 1A

## GWASANAETHAU

1. Yn unol â chymal 4 bydd gan y Gwasanaeth y swyddogaethau a ganlyn.

**1.1 Cefnogi Awdurdodau Lleol i ymgymryd â'u swyddogaethau statudol mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion drwy:**

- Fonitro gwaith a pherfformiad yr ysgolion ar sail amrediad o dystiolaeth, ac adrodd ar hyn.
- Herio ysgolion ar sail perfformiad a darpariaeth yr ysgol gyfan, ac yng nghyswllt rhaglenni dysgu unigol a threfniadau cefnogi disgyblion er mwyn hybu gwelliant yng nghyrhaeddiad disgyblion.
- Ymyrryd â'r ddarpariaeth a wneir gan ysgol pan fo angen, a chefnogi ysgolion sydd mewn trafferthion a'r rheini sydd â gwendidau difrifol.
- Hwyluso'r defnydd o ddata, a'i ddehongli, er mwyn sicrhau atebolrwydd deallus.

**1.2 Rhoi cefnogaeth i'r Awdurdodau Lleol a'r Ysgolion (ar y cyd ac ar wahân, yn ôl yr achos) mewn gweithgareddau Gwella Ysgolion drwy:**

- Gefnogi ysgolion i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag effeithiolrwydd/gwella'r ysgol a deilliannau'r disgyblion.
- Darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer addysgeg (dysgu ac addysgu), arweinyddiaeth a rheolaeth, ac o ran atebolrwydd deallus a datblygiad proffesiynol. (Hunanwerthuso, asesu a monitro).

- Datblygu a defnyddio, ar sail gysylltiol, arweinyddion system a symud yr agenda arweinyddiaeth system yn ei blaen yn rhagweithiol.
- Hwyluso a chefnogi rhwydweithio a rhwydweithiau o ymarfer proffesiynol, pan fo angen.
- Rhoi sylw i faterion o bryder mewn ysgolion ac Awdurdodau Lleol, a chefnogi ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol.
- Darparu arbenigedd ar TG (Cwricwlwm ac Addysgeg) a'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir.

**1.3 Cyfrifoldeb penodol am weithredu'r FfEY ac atebolrwydd am y Fframwaith Her ac Ymyrraeth (CIF)*, drwy:**

- Darparu a datblygu arbenigedd ymysg staff, a gwybodaeth sefydliadol am addysgeg a dysgu.
- Cefnogi hunanwerthusiad ysgolion.
- Cefnogi'r Awdurdodau Lleol a'r ysgolion i gyflawni eu cyfrifoldebau yng nghyswllt y FfEY – gan gynnwys gwella deilliannau a lles disgyblion.
- Sicrhau bod holl weithgareddau'r gwasanaeth rhanbarthol yn cael eu gwneud yng nghyd-destun y FfEY.
- Hwyluso datblygiad a gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol.
- Darparu cefnogaeth i Ysgolion sy'n Peri Pryder, a mynd i'r afael â'u hanghenion.
- Cyfrannu at baratoi am arolygon Estyn mewn ysgolion unigol, ac arolygon eraill.
- Gwneud trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy gyrsiau, broceriaeth, casglu a rhannu arfer da, a datblygu Porth rhanbarthol.

* tybir fod cyfeiriadau ar FfEY Neu CIF yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau neu bolisïau neu fframweithiau diweddarach sydd yn eu disodli cyn belled ac i'r graddau eu bod yn gydnaws a Swyddogaethau'r Gwasanaeth.

1.4 **Darparu ar gyfer datblygu, cynnal ac adolygu fframweithiau rhanbarthol ar sail comisiwn,** i gynnwys:

- Protocolau.
- Canllawiau a dogfennaeth ar weithredu.
- Dogfennaeth a bwletinau.

2. Bydd y mecanweithiau ar gyfer darparu'r Gwasanaeth yn cynnwys:

2.1 Defnyddio, rheoli, recriwtio a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus Swyddogion Gwella Ysgolion (a elwir o hyn allan yn Arweinyddion System).

2.2 Ymweliadau Arferol (tri ymweliad y flwyddyn i bob Ysgol bellach) ag Ysgolion i fonitro Perfformiad yr Ysgol.

2.3 Gweithredu a rheoli ymyraethau mewn Ysgolion sy'n Peri Pryder.

2.4 Ymyraethau Thematig e.e. yn ymwneud yn benodol â grwpiau o ddysgwyr sydd fel arfer yn Tangyflawni (e.e. y rheini nad Cymraeg/Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ADY, Plant Mewn Gofal ac ati).

2.5 Casglu, dehongli a rhannu Data am Berfformiad Ysgolion a'i Disgyblion gydag Ysgolion, oddi mewn i'r ALl, gydag Aelodau Etholedig et al.

2.6 Darparu adroddiadau sy'n ymwneud â Pherfformiad a Safonau Ysgolion i Aelodau Etholedig, ESTYN, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd yn gyffredinol.

2.7 Rhoi sylwadau ar Gynllun Gweithredu Ysgol ar ôl Arolwg, a'i gymeradwyo. (Mae'r dyletswyddau hyn yn gofyn mwy mewn Ysgol sydd wedi'i rhoi mewn categori ffurfiol gan ESTYN).

2.8 Bod yn bresennol pan fydd Penaethiaid yn cael eu penodi, a mynychu'n rheolaidd pan wneir penodiadau ar wahân i Benaethiaid.

2.9 Rheoli Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd a defnyddio arbenigwyr llythrennedd a rhifedd a rhaglenni DPP llythrennedd a rhifedd.

2.10 Herio'r Ysgolion drwy'r Arweinyddion System yn unig ynghylch: Arweinyddiaeth, Addysgu, Dysgu, Grwpiau sy'n Tangyflawni, Presenoldeb, Ymddygiad, Rheolaeth Ariannol, Defnydd o Ddata Perfformiad ac Asesu, Plant Mewn Gofal, Cymunedau Dysgu Proffesiynol a defnyddio adnoddau i gefnogi gwelliant.

2.11 Cefnogaeth ac arweiniad i Athrawon Newydd Gymhwyso.

2.12 Arwain datblygiad gwaith rhwng Ysgolion.

2.13 Cefnogaeth ar gyfer y cwricwlwm, cyngor am bynciau a chyngor am gyfnodau ac agweddau penodol.

2.14 Cyflawni mentrau lleol.

2.15 Cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau'r rhaglen rheoli perfformiad.

2.16 Cyngor a chefnogaeth TGCh.

2.17 Cynnull a rheoli grwpiau sy'n ymwneud â themâu neu gyfnodau penodol.

2.18 Canolfannau Datblygiad Proffesiynol.

2.19 Cynnal gwaith ymchwil.

2.20 Er mai cyffredinol yw'r uchod, bydd y lefelau isafswm a ganlyn yn berthnasol i'r gwasanaeth gan bob Cyngor.

| **Ymweliadau ag Ysgolion** | **Nifer yr ymweliadau y flwyddyn fesul Ysgol (yn seiliedig ar 466 gan gynnwys Meithrin, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig)** | **Cyfanswm Nifer y Dyddiau** |
|---|---|---|
| **Ymweliad Rheolaidd** | **3 diwrnod** | |
| **Cynllunio a Pharatoi (gan gynnwys rheoli perfformiad)** | **3 diwrnod** | |
| | | **2769** |

## ATODLEN 1B

### Y Model Comisiynu

**Cynllun Comisiynu'r Awdurdod Lleol**

↓ Paratowyd gan bob Cyngor unigol, a chyflwynir i'r broses Cynllun Comisiynu Rhanbarthol.

**Cynllun Comisiynu Rhanbarthol**

↓ Yn seiliedig ar Gynllun Comisiynu'r Awdurdodau Lleol, a chytunwyd rhwng y Penaethiaid Addysg neu'r Gwasanaeth Ysgolion drwy'r Consortiwm

**Cynllun Busnes y Gwasanaeth**

↓ Cynllun Busnes Blynyddol a ddatblygir mewn ymateb i'r Cynllun Comisiynu Rhanbarthol ac mae'r Cydbwyllgor yn cytuno arno.

**Cytundeb Lefel Gwasanaeth**

Cytundeb Lefel Gwasanaeth Blynyddol wedi'i seilio ar Gynllun Busnes Blynyddol y Gwasanaeth.

## ATODLEN 2

## CYLCH GORCHWYL Y CYDBWYLLGOR

1.1 Mae cylch gorchwyl y Cydbwyllgor fel hyn:

1) hyrwyddo cydweithio wrth gyflwyno'r Gwasanaeth trwy:

- hwyluso gweithio mewn partneriaeth mewn modd adeiladol;
- ymgysylltu â chyrff a budd-ddeiliaid allweddol sydd â diddordeb pan fo hynny'n briodol; a
- chynnal unrhyw weithgareddau eraill y credir y byddant yn hwyluso, neu yn arwain ar gyflwyno'r Gwasanaeth yn llwyddiannus; a

2) goruchwylio rheolaeth y Gwasanaeth a sicrhau y caiff y Gwasanaeth ei ddarparu a'i fod yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Cynghorau, fel yr adlewyrchir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhwng yr Awdurdodau a'r Cynlluniau Busnes a Chomisiynu Blynyddol y cytunwyd arnynt;

3) cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;

4) cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;

5) monitro a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth;

6) cadarnhau ceisiadau am gyllid ychwanegol o'r gyllideb gan Gynghorau unigol;

7) cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;

8) penodi Prif Swyddog y Gwasanaeth;

9) penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog, a phan fo gofyn, penderfynu neu drefnu i benderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â materion Adnoddau Dynol.

Mae'r materion a ganlyn wedi'u cadw'n ôl yn benodol i bob Cabinet unigol benderfynu arnynt:

1) cymeradwyo trefniadau llywodraethu'r bartneriaeth rhwng y Cynghorau;

2) cynyddu'r gyllideb yn uwch na'r cyfraniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer pob Cyngor;

3) caffael y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol; a

4) therfynu'r Bartneriaeth.